



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comisiynyddygybraeg.cymru

Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygybraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygybraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comisiynyddygyymraeg.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad 4

- Cyd-destun deddfwriaethol
- Dogfennau cyngor Comisiynydd y Gymraeg
- Pwrpas y ddogfen gyngor hon

Rhan 1 – Cyd-destun 6

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol 12

- 2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol
 - 2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
 - 2.1.2. Confensiwn UNESCO
 - 2.1.3. Cytuniad y GE
 - 2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd
- 2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau
 - 2.2.1. Rheolau'r GE
 - 2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")
 - 2.2.2.a. Y cymal dethol
 - 2.2.2.b. Y cymal gwerthuso
 - 2.2.2.c. Amodau contract
 - 2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE
 - 2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau
 - 2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Rhan 3 – Y Gymraeg yn y broses dendro 23

- 3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro
 - 3.1.1. Adnabod y gofynion
 - 3.1.2. Gosod manyleb
 - 3.1.3. Dethol
 - 3.1.4. Gwerthuso
 - 3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau 35

- 4.1. Enghreifftiau o gontractau allweddol
 - 4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)
 - 4.1.2. Gwasanaethau gofal
 - 4.1.3. Bilio a gwasanaethau refeniw



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

comisiynyddygyymraeg.cymru

Cynnwys

- 4.2. Problemau a wynebir
- 4.2.1. Cytundebau fframwaith
- 4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol
- 4.3. Meysydd anodd eu goresgyn
- 4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol
- 4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli
- 4.4. Canllaw arfer gorau

Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol 40

- Atodlen 1 - Opiniwn cyfreithiol ar gydymffurfio â rhwymedigaethau caffael: OPINIWN
- Atodlen 2 – Cymorth Ymarferol
- Atodlen 3 – Cymorth Ymarferol
- Atodlen 4 – Cymorth Ymarferol
- Atodlen 5 – Cymorth Ymarferol
- Atodlen 6 – Cymorth Ymarferol
- Atodlen 7 - Cymorth Ymarferol



Cyflwyniad

Cyd-destun deddfwriaethol

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("Mesur y Gymraeg") yn gosod cyd-destun cyfreithiol newydd ar gyfer y Gymraeg. Wedi iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011, sefydlwyd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal â'r egwyddor gyffredinol na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â'r Gymraeg, ac yn hynny o beth bydd, maes o law, yn disodli llawer o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993").

Sefydlir Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") gan Adran 2 Mesur y Gymraeg i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol, a bydd ei waith yn cynnwys gosod dyletswyddau cyfreithiol ar bersonau drwy 'safonau' Rhan 4 Mesur y Gymraeg. Bydd modd gorfodi'r safonau hynny drwy ddarpariaethau Rhan 5 Mesur y Gymraeg. Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i weithredu'r safonau yn y dyfodol, bydd codau ymarfer safonau'n cael eu llunio. Bydd y safonau yn dod i rym ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus o fewn y blynyddoedd nesaf.

Mae llawer o'r sefydliadau cyhoeddus a fydd yn ddarostyngedig i safonau yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol ar hyn o bryd, o dan Ddeddf 1993. Pan ddaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben ddiwedd Mawrth 2012, trosglwyddwyd ei ddyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd dyletswydd pob sefydliad i gydymffurfio â chynllun iaith a gymeradwywyd o dan Ddeddf 1993 yn parhau tan bod y sefydliad hwnnw yn dod yn ddarostyngedig i safonau o dan Fesur y Gymraeg.

Dogfennau cyngor Comisiynydd y Gymraeg

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau a nodir yn y safonau a'r codau ymarfer statudol, caiff y Comisiynydd hefyd gyhoeddi dogfennau cyngor i gynorthwyo unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd am gynnig darpariaeth ddwyieithog.

I sefydliadau sy'n gweithredu safonau neu gynlluniau iaith o dan fframwaith deddfwriaethol Mesur y Gymraeg neu Ddeddf 1993 fel y bo'n briodol, bydd y dogfennau cyngor hyn yn gymorth i gydymffurfio ac yn ategu canllawiau statudol eraill.

I sefydliadau eraill bydd y dogfennau cyngor yn gymorth i gynnig gwasanaethau dwyieithog ac i weithredu mewn cyd-destun ble mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

Pwrpas y ddogfen cyngor hon

Gwelir tuedd gyffredinol ymysg sefydliadau cyhoeddus i droi at sefydliadau preifat, gwirfoddol a sefydliadau cyhoeddus eraill i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan drwy gontract. Mae caffael gwasanaethau cyhoeddus yn fodd o sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a'r gwerth gorau am y bunt cyhoeddus.

Mae'r egwyddor a sefydlwyd ym Mesur y Gymraeg na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yr un mor berthnasol i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau cyhoeddus â'r rheini a ddarperir drwy gontract. Nid yw'r ffaith bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu drwy gontractwyr yn gwanhau nac yn osgoi'r gofyniad cyfreithiol bod y gwasanaethau hynny'n cael eu cyflwyno yn unol â'r dyletswyddau a osodir ar y sector cyhoeddus.



Cyflwyniad

O dan Ddeddf 1993 rhoddir dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, dan gynlluniau iaith Gymraeg, i sicrhau bod unrhyw 3ydd partion sy'n gweithredu ar eu rhan yn rhoi sylw dyledus i anghenion siaradwyr Cymraeg.

Pwrpas y ddogfen cyngor hon yw cynnig cyngor a chymorth am sut i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd ar gontractio gwasanaethau cyhoeddus a nwyddau. Bwriedir y bydd cyhoeddi'r ddogfen cyngor hon yn arwain at ehangu'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd y ddogfen cyngor hefyd yn fodd i sefydliadau sicrhau gwerth am arian wrth gaffael gwasanaethau Cymraeg.

Paratowyd y ddogfen cyngor gan y cyfreithiwr Lucy Griffiths, Eversheds gyda chymorth y bargyfreithiwr Gwion Lewis, Landmark Chambers. Diolchwn i'r ddau ohonynt am eu gwaith.



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

1.1. Amcanion a chwmpas

Diben y cyngor hwn yw cynorthwyo sefydliadau sydd ag achos busnes deddfwriaethol i sicrhau y gall contractwyr sydd yn cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus ar eu rhan gyflwyno gwasanaeth o'r fath yn unol â gofynion deddfwriaeth iaith Gymraeg. Ymdrecha'r cyngor hwn i gydbwyso gofynion o'r fath gyda'r ffactorau eraill niferus y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddyfarnu contract, a rhoi sicrwydd ynglŷn â chyfreithlondeb yr argymhellion yn y ddogfen hon ar yr un pryd.

Mae'r ddogfen cyngor hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ofynion y sector cyhoeddus wrth roi contract am wasanaethau, nwyddau neu waith allan i dendr. Mae gofyn i'r sector cyhoeddus ddiogelu neu gyflawni nifer o rwymedigaethau cyfreithiol wrth gynnal proses dendro ac wrth ddyfarnu'r contract sy'n deillio o hynny; rhai yn rhyngwladol, rhai yn Ewropeaidd a rhai yn ddomestig. Gall y rhain ar adegau greu blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Rhaid cydbwyso'r cyfan yn y broses i sicrhau bod y gwahanol flaenoriaethau cyfreithiol yn cael eu parchu. Mae'r ddogfen cyngor yn rhoi ystyriaeth hefyd i ffactorau neu wahaniaethau a all effeithio'n benodol ar ddarparwyr cyfleustodau rheoledig.

Ychydig iawn o gyfyngiadau rheoleiddiol sy'n effeithio ar ddarparwyr cyfleustodau sydd heb eu rheoleiddio a sefydliadau preifat eraill wrth osod contract, os oes rhai o gwbl, ac mae ganddynt fwy o hyblygrwydd i gyflwyno gofynion iaith fel rhan o'u cynlluniau cyfrifoldeb

cymdeithasol corfforaethol. Wrth i sefydliadau o'r fath fabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg neu ddewis cadw at egwyddorion safonau'r iaith Gymraeg felly, dylid cofio ei bod yn debygol y gallant orfodi disgwyliadau a rhwymedigaethau ynglŷn â'r Gymraeg i raddau llawer pellach na'r hyn sydd yn y cyngor hwn.

Anelir y ddogfen hon at benaethiaid adrannau caffael, swyddogion datblygu polisi, swyddogion iaith Gymraeg a rheolwyr sy'n gyfrifol am baratoi dogfennaeth gaffael. Gall y dogfennau enghreifftiol a'r cymalau a gynhwysir yn y ddogfen hon fod yn ddefnyddiol hefyd i staff caffael ar bob lefel, ar ôl i eiriad perthnasol a theilwredig gael ei gymeradwyo'n fewnol fel y nodir yn adran 4.4 y cyngor hwn.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i sefydliadau yng Nghymru yn ogystal â thu hwnt, sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Dylai sefydliadau ystyried y cyngor hwn a phrif ffrydio'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg o fewn cyd-destun y polisi caffael ehangach sy'n berthnasol iddynt.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad am y gyfraith ond nid yw wedi ei fwriadu i fod yn gyngor cyfreithiol y gellid dibynnu arno mewn achosion unigol. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cymryd cyngor cyfreithiol proffesiynol.

1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau sydd yn werth tua £5.5 biliwn¹. Mae dyfarnu a chyflawni contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau

¹Ffigurau wedi eu darparu gan Gwerth Cymru



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

felly yn allweddol i'r modd y mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu a chanfyddiad pobl ohono.

Yn amlwg, bydd rhai o'r contractau hynny yn ymwneud â chyflwyno nwyddau a gwasanaethau yn uniongyrchol i'r corff cyhoeddus ei hun ac mae'n bosibl na fydd yn golygu gwasanaeth cyhoeddus uniongyrchol (y canolbwyntir arno yn y cyngor hwn). Fodd bynnag, mae gwasanaethau cyhoeddus craidd yn rhan anferth o'r gwariant blynyddol hwn.

Fel yr eglurir yn fanwl yn Rhan 2 o'r ddogfen hon, wrth gynnal busnes cyhoeddus dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae 23% o boblogaeth Cymu yn siarad rhywfaint o Gymraeg – ac mae 11% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg.²

Mae 47% o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn rhugl ac o'r rheiny mae 84% yn siarad Cymraeg bob dydd³. Er hynny nid yw'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn eu dewis iaith yn gyfartal nac yn gyson.

Mewn arolwg o wasanaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru, casglwyd bod:

“y dewis a ddarperir o ran gwasanaethau Cymraeg neu Saesneg... [yn] amrywio ac yn anghyson”⁴

Yn benodol, darganfu'r arolwg bod y:

“dystiolaeth a ddarparwyd gan yr asiantaethau'n dangos bod eu systemau mewnol, eu trefniadau gwaith a'u gweithdrefnau ar gyfer cynnig a chofnodi dewis iaith, ymateb iddo a rhannu gwybodaeth amdano yn annigonol ac yn anghyson at ei gilydd ac mewn rhai achosion, nid oes gan yr asiantaethau systemau, trefniadau neu weithdrefnau o'r fath o gwbl.”

Ymddengys fod y wybodaeth hon yn gyson â meysydd sector eraill, gan gynnwys prynu meddalwedd TG fel y gellir darparu llenyddiaeth i'r cyhoedd. Dangosodd arolwg o systemau TG nifer o awdurdodau lleol Cymru, a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflenni pleidleisio mewn etholiad, nad oedd yr un o'r systemau yn cofnodi dewis iaith pleidleiswyr. Ar ben hyn, dim ond hanner y systemau TG oedd yn cynnwys y cyfleuster i gynhyrchu ffurflenni yn ddwyieithog⁵.

Fodd bynnag, mae mantais darparu gwasanaethau dwyieithog yn eglur o safbwynt 'bodlonrwydd cwsmeriaid' ac, yn bwysicach fyth, o safbwynt cyflwyno gwasanaethau effeithiol yng Nghymru. Mewn cynhadledd gofaliad iechyd, pwysleisiodd cadeirydd bwrdd iechyd lleol sut yr oedd cyflwyno Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i staff y GIG o fantais i'r cleifion:

“Mae'r hyfforddiant hwn yn bwysig oherwydd y dylai cleifion

²Gweler Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15 <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Y%20defnydd%20o%27r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru%202013-15.pdf>

³Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15 <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Y%20defnydd%20o%27r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru%202013-15.pdf>

⁴Y ddarpariaeth o ran Dewis iaith yn Sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru – Ebrill 2008 http://www.iaith.eu/uploads/adrddiadd_bwrdd_cyfiawndercymraeg.pdf

⁵<http://surveys.cardiff.gov.uk/electsys/list.asp>



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

a defnyddwyr y gwasanaethau fod yn fwyfwy ymwybodol fod cynnig dewis o ran iaith yn cael ei ystyried yn rhan naturiol o'u gofal, a'u bod yn gallu gweld y bydd ymdrech i ddarparu gwasanaethau yn iaith y claf... mae'n rhaid bod hyn yn cael effaith gadarnhaol. Mae'n golygu y gall y gwasanaeth ofalu am y cleifion drwy gyfrwng eu dewis iaith, a helpu i wneud y bobl sy'n agored i niwed deimlo'n fwy cysurus mewn gwahanol leoliadau.”⁶

Yn yr un modd darganfu arolwg y gwasanaethau cyfiawnder troseddol y cyfeiriwyd ato uchod:

“Ar draws y sector, mae'r strategaethau a ddefnyddir gan asiantaethau i helpu unigolion bregus a'u hatal rhag aildroseddu yn dibynnu'n helaeth ar ddefnydd effeithiol o sgiliau iaith gan weithwyr proffesiynol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid ystyried bod defnyddio'r Gymraeg â siaradwyr Cymraeg yn elfen ganolog a hanfodol o ansawdd a safon y gwasanaeth a ddarperir yn hytrach nag yn elfen ychwanegol ohono.”⁷

O ran argraff y cyhoedd, darganfu'r un arolwg:

“Lle bo dewis iaith yn cael ei gynnig a lle bo siaradwyr Cymraeg yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith, mae gallu delio â'r system cyfiawnder troseddol yn Gymraeg yn brofiad llawer gwell sy'n ychwanegu'n sylweddol at ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael... Mae siaradwyr Cymraeg yn tueddu i ystyried y cyfle i

ddefnyddio'r Gymraeg fel arwydd o ofal cwsmer da a thriniaeth gyfartal.”

Fel yr esbonia'r cyngor hwn yn fanylach, er mwyn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, o ansawdd ac sy'n gyfartal yng Nghymru, mae'n ofynnol ac yn angenrheidiol cynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg o gychwyn y broses dendro. Mae'r cyngor hwn yn ystyried y dull y dylid ei ddefnyddio er mwyn cynnwys, gweithredu a monitro'r rhwymedigaethau hynny'n effeithiol drwy gydol proses dendro a thrwy oes y contract sy'n dilyn o'r broses honno.

1.3.

Materion penodol i'w trafod

Mae adran gyfreithiol gynhwysfawr wedi'i chynnwys yn Rhan 2 o'r cyngor hwn er mwyn egluro safle'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg gyfochr ag egwyddorion perthnasol cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (“UE”). Cefnogir yr adran hon gan farn gyfreithiol bargyfreithiwr sydd yn arbenigo mewn cyfraith iaith. Gall Rhan 2, a'r farn gyfreithiol yn Atodlen 1 o'r ddogfen cyngor hon, gynorthwyo sefydliadau mewn trafodaethau gyda'u hadrannau cyfreithiol a pholisi. Bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu polisiau sydd yn gyfreithiol ddibynadwy ar gyfer cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn dogfennau caffael.

Yn ogystal, ac yn unol â diben y cyngor, fel ag y nodir yn adran 1.1 uchod, ar y contractau cysylltiedig â “darparu gwasanaethau i'r cyhoedd” yn unig y mae'r cyngor hwn yn canolbwyntio.

⁶Adroddiad cynhadledd y Gymraeg mewn Gofal Iechyd - <http://www.wales.nhs.uk/documents/welsh-language-healthcare-w.pdf>

⁷Y Ddarpariaeth o ran Dewis Iaith yn y Sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (Jones ac Eaves, 2008)



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

Yn y cyd-destun hwn, gall “darparu gwasanaethau i'r cyhoedd” gynnwys gwasanaethau neu nwyddau e.e. llinellau cymorth, gwefannau, llyfrynau neu nwyddau eraill. Mae adroddiadau monitro ac arolygu yn nodi hefyd, lle mae angen prynu dim ond nwyddau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. arwyddion, cyhoeddiadau, gwisgoedd â brand ac ati) bod lefel uchel o gydymffurfiaeth ymysg sefydliadau sydd â chynlluniau iaith Gymraeg. Mae sefydliadau wedi nodi bod cael arwyddion dwyieithog a gwisgoedd â brand ac ati drwy broses gaffael yn gweithio'n dda, gan y gellir darparu geiriad o'r fath naill ai gan y corff yn uniongyrchol neu gan unrhyw gontractwr drwy ddefnyddio cyfieithwyr.

Y meysydd lle ceir mwy o ansicrwydd a chymhlethdod o bosibl yw'r meysydd lle gallai fod angen ar ddefnyddwyr am wasanaethau neu nwyddau Cymraeg neu Saesneg gan gontractwr yn uniongyrchol. Mae hyn yn debyg o alw am ddull gweithredu rhagweithiol gan gontractwyr, gan gynnwys cael siaradwyr Cymraeg i gyflwyno'r gwasanaeth ar gyfer contractau penodol. Mae'r cyngor hwn felly yn canolbwyntio'n bennaf ar y mathau hynny o contractau, gan gyfeirio'n aml at enghreifftiau i gynorthwyo wrth weithredu'r egwyddor.

Yn y ddogfen hon drwyddi, cyfeirir at y math o gontractau y mae'r cyngor hwn yn berthnasol iddynt (fel y'u disgrifiwyd uchod) fel “contractau gwasanaethau cyhoeddus”.

1.4.

Deddfwriaeth berthnasol

Fel y nodwyd uchod, mae'r cyngor hwn yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r brif ddeddfwriaeth berthnasol o ran dyfarnu contract gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae Rhan 2 o'r cyngor hwn yn ystyried y ddeddfwriaeth benodol a'r egwyddorion pwysicaf y mae'n rhaid eu parchu.

Mae Rhan 2 yn cynnwys adrannau ar wahân er mwyn ymdrin â chaffaeliadau sy'n dod o dan gyfarwydddebau Ewropeaidd ar ddyfarnu contractau wedi'u rheoleiddio (adran 2.2.2) yn ogystal ag adran yn ymdrin â chontractau nad ydynt yn dod o dan y cyfarwydddebau hynny (adran 2.2.3). Nodir ystyriaethau statudol eraill perthnasol yn adran 2.2.4 a 2.2.5.

Serch hynny, mae'r cyngor hwn yn amlygu'r ffaith y gall gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg fod yn rhan orfodol o fanyleb. Caiff gofynion o'r fath lai o effaith ar y broses gaffael ei hun a mwy o effaith ar y gofynion yr ymdrinnir â hwy yn y ddogfen i dendrwy'r a'u hymatebion. Maent yn ymwneud â gallu contractwyr i gyflwyno'r contract gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol, boed hynny'n golygu bod angen iddynt dendro drwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio. Nid yw'r cyngor hwn yn arwydd bod rhaid i bob proses gaffael gael ei chynnal yn ddwyieithog, gyda dogfennau caffael yn cael eu cyhoeddi a'u derbyn yn y Gymraeg.



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

Wedi dweud hynny, gall corff benderfynu ei bod yn bwysig cyflwyno rhywfaint neu bob rhan o'r broses gaffael yn Gymraeg ar gyfer caffaeliadau penodol, er mwyn dangos gallu technegol contractwr. Ond bydd angen i benderfyniad o'r fath fod yn oddrychol, yn seiliedig ar ofynion defnyddiwr y gwasanaeth o dan bob contract penodol a'r modd y mae dogfennau'r fanyleb a'r contract wedi eu creu. Mae rhagor o fanylion ar y pwynt hwn yn adran 3.1.2 o'r cyngor hwn.

Mae pryder wedi'i fynegi nad yw'n bosibl cynnal caffaeliadau'n ddwyieithog pan reoleiddir hwy gan Gyfarwyddbau Ewropeaidd. Mae'n ofynnol cyhoeddi nodiadau cysylltiedig â chaffaeliadau o'r fath drwy OJEU, Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ("y Cyfnodolyn"), a hynny yn un o ieithoedd swyddogol yr UE; fe'u gwneir yn Saesneg felly yn y DU.⁸ Cymeradwywyd y Gymraeg fel iaith gyd-swyddogol yr UE ar 15 Gorffennaf 2008 gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn golygu y ceir defnyddio'r Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd a gohebiaeth benodol gyda Chyngor yr Undeb Ewropeaidd ond nid ar gyfer dogfennau swyddogol megis hysbysiadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Fodd bynnag, er bod y Cyfnodolyn yn gwneud dogfennau Saesneg yn ofynnol, nid yw hynny'n atal sefydliadau rhag cynnwys dolen yn eu hysbysiad contract (i broffil dwyieithog prynwr er enghraifft) yn cyfeirio contractwyr at fersiynau Cymraeg o'r ddogfennaeth. Ni ddylai fersiynau Cymraeg o'r fath gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r hyn a roddwyd ar y Cyfnodolyn. Os yw'r safonau yn gofyn i

sefydliadau gyhoeddi 'gwahoddiadau i dendro am contract' yn Gymraeg, mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r hysbyseb contractio ar broffil prynwr (h.y. GwerthwchiGymru) fel gofyniad leiaf.

Wrth benderfynu a yw awdurdod contractio yn dymuno cynnal rhywfaint o'i broses dendro yn Gymraeg, bydd angen i'r awdurdod contractio ystyried yr hyn sy'n briodol ar gyfer y contract neilltuol hwnnw a'i allu yn fewnol i ymdrin â chontractau o'r fath yn Gymraeg. Efallai na fyddai'n gymesur ei gwneud yn ofynnol i'r broses dendro lawn fod yn ddwyieithog lle byddai'n rhaid i'r ddwy ochr ddefnyddio cyfieithwyr i allu ymdrin â'r ddogfennaeth. Fodd bynnag, rhaid i sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i safonau fod yn ymwybodol o'r gofyniad i ganiatáu i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac i beidio â thrin tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.

Gallai cynnal proses yn Gymraeg yn bennaf neu'n llwyr, fodd bynnag, fod yn briodol, os yw'r contract yn gysylltiedig â gwasanaethau lle byddai ar yr holl ddefnyddwyr eisiau'r gwasanaethau yn y Gymraeg. Ar gyfer anghenion mwy cyfyngedig, mae'n bosibl y byddai sefydliadau yn dymuno'i gwneud yn ofynnol i rai elfennau neu enghreifftiau o'r broses gael eu darparu yn ddwyieithog. Am ragor o fanylion am faterion o'r fath gweler Rhan 3 o'r cyngor hwn.

Yn gyson â geirfa caffael, mae'r ddogfen hon hefyd yn cyfeirio at y sefydliadau y mae'r cyngor hwn yn seiliedig arnynt fel "awdurdodau contractio" yn y rhannau canlynol.



Rhan 1 – Cyd-destun

- 1.1. Amcanion a chwmpas
- 1.2. Cefndir/Ffeithiau a ffigurau
- 1.3. Materion penodol i'w trafod
- 1.4. Deddfwriaeth berthnasol

Mae'r ymadrodd hwn wedi'i fabwysiadu gan y Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus⁹. O dan y gyfarwydddeb sy'n rheoleiddio contractau a ddyfernir gan ddarparu cyfleustodau rheoledig, yr ymadrodd perthnasol yw "endid contractio".



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Mae'r Rhan hon o'r cyngor yn ceisio egluro'r sefyllfa gyfreithiol o ran rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg pan fydd awdurdod contractio yn dymuno gosod contract gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r ddeddfwriaeth gaffael a'r ddeddfwriaeth iaith berthnasol gyda dadansoddiad o sut y gellir ateb y gofynion hyn yn briodol wrth osod contract ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae Mesur y Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg yn narpariaeth gwasanaethau.¹⁰ Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i rai sefydliadau gydymffurfio â safonau cyflwyno gwasanaeth. Bydd sefydliad yn cael gwybod pa safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy a pha bryd. Mae safonau cyflwyno gwasanaeth yn ymwneud â 'gweithgaredd cyflwyno gwasanaeth'. Eglurir yn adran 28(2) fod hyn yn golygu:

"person sydd yn -

(a) cyflenwi gwasanaethau gan berson i berson arall, neu

(b) delio gan berson ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau -

(i) i'r person arall hwnnw, neu

(ii) i drydydd person"

Pan fo awdurdod contractio yn ymwneud â chontract mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar ei ran, o dan gontract, mae'n dod o fewn diffiniad sydd wedi ei osod allan yn adran 28(2)(b)(ii) a nodir uchod. Mae Mesur y Gymraeg felly'n bwriadu i safonau fod yn berthnasol wrth ymwneud â chontractwyr, er mwyn darparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod contractio.

Hyd nes y mae safonau o'r fath mewn grym, pery Deddf 1993 i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i baratoi a chydymffurfio â chynlluniau iaith Gymraeg, er mwyn gweithredu'r egwyddor:

"wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal."¹¹

O dan Ddeddf 1993 mae'n rhaid i'r camau a gymerir a'r canllawiau a ddatblygir er mwyn gweithredu'r egwyddorion a'r rhwymedigaethau hyn fod yn "briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol". Yn yr un modd, mae Mesur y Gymraeg yn sicrhau bod y gofyniad i gydymffurfio â safon yn rhesymol ac yn gymesur.¹²

Mae hyn wedi sicrhau erioed y gall sefydliadau sydd â rhwymedigaethau iaith Gymraeg, wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, ymateb yn deg i anghenion buddiolwyr y ddeddfwriaeth hon, sef y cyhoedd yng Nghymru.

¹⁰Adran 3(1) a (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

¹¹Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

¹²Adran 54(a) Mesur y Gymraeg



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Fodd bynnag, wrth i'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau o'r fath i'r cyhoedd gael ei osod ar gontract, mae angen ystyried yr egwyddor uchod yng nghyd-destun gofynion trawsffiniol eraill. Yn y sector caffael cyhoeddus mae pryder arbennig ynghylch cydbwyso gofynion iaith cyfreithiol gyda rheolau caffael ehangach. Ond o ddeall sut y gweithredir yr egwyddor iaith hon yn rhyngwladol ac yn Ewrop, gwelwn fod modd cyflawni'r ddau ofyniad hwn ochr yn ochr â'i gilydd wrth osod contract.

2.1.2. Confensiwn UNESCO

Cymeradwywyd y Confensiwn ar Ddiogelu a Hyrwyddo Amrywiaeth Mynegiadau Diwylliannol¹³ gan Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ym Mharis ar 20 Hydref 2005 gyda chefnogaeth y Gymuned Ewropeaidd a'r rhan fwyaf o'i Haelod Wladwriaethau. Daeth Confensiwn UNESCO i rym ar 18 Mawrth 2007.

Mae'r Confensiwn yn cydnabod:

"pwysigrwydd amrywiaeth ddiwylliannol er mwyn gwireddu'n llawn yr hawliau dynol a'r rhyddidau sylfaenol a gyhoeddir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ac offerynnau eraill a gydnabyddir yn gyffredinol."¹⁴

Mae Erthygl 2(2) Confensiwn UNESCO yn datgan mai sofraniaeth yw un o'i egwyddorion craidd:

"Mae gan wladwriaethau, yn unol â Siarter y Cenhedloedd

Unedig ac egwyddorion cyfraith ryngwladol, yr hawl sofran i fabwysiadu mesurau a pholisïau i ddiogelu a hyrwyddo amrywiaeth o fynegiadau diwylliannol yn eu tiriogaeth."

Mae Erthygl 6 Confensiwn UNESCO yn cynnwys y canlynol:

"1. Yn fframwaith ei bolisïau a'i fesurau diwylliannol... gall pob Parti fabwysiadu mesurau â'r nod o ddiogelu a hyrwyddo amrywiaeth o fynegiadau diwylliannol sydd yn ei diriogaeth.

2. Gall mesurau o'r fath gynnwys y canlynol:

- (i) mesurau rheoleiddiol sydd â'r nod o ddiogelu a hyrwyddo amrywiaeth o fynegiadau diwylliannol;
- (ii) mesurau sydd, mewn modd priodol, yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau, nwyddau a gwasanaethau diwylliannol domestig ymysg yr holl rai sydd yn y diriogaeth genedlaethol ar gyfer creu, cynhyrchu, lledaenu, dosbarthu a mwynhau gweithgareddau, nwyddau a gwasanaethau diwylliannol domestig o'r fath, yn cynnwys darpariaethau sydd yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

Mae Confensiwn UNESCO yn gytuniad rhyngwladol sy'n pwysleisio hawl Aelod Wladwriaethau i fabwysiadu mesurau sy'n diogelu a hyrwyddo amrywiaeth mynegiadau diwylliannol. Mae hyn yn caniatáu'n arbennig, ar lefel ryngwladol, i Wladwriaethau Contractio arfer mesurau yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

¹³Atodiad 1(a) i Benderfyniad y Cyngor 2006/515/ EC ar 18 Mai 2006 ar gasgliad y Confensiwn ar Ddiogelu a Hyrwyddo Amrywiaeth Mynegiadau Diwylliannol (OJ 2006 L 201, t. 15)

¹⁴Pumed adroddiad yn y rhagymadrodd i Gonfensiwn UNESCO



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Mae'r UE a'r DU wedi ymroi i ystyried Confensiwn UNESCO wrth ddehongli a defnyddio cytuniadau eraill, gan gynnwys dehongli a defnyddio Cytuniad y Gymuned Ewropeaidd¹⁵.

2.1.3. Cytuniad y GE¹⁶

Mae cydnabyddiaeth eglur ar lefel y GE o'r hawl i amrywiaeth ieithyddol. Yn ddiweddar mae Cyngor yr Undeb Ewropeaidd wedi cadarnhau y dylid parchu amrywiaeth ieithyddol Ewrop ac mae parchu a hyrwyddo amrywiaeth ei diwylliannau yn un o brif ddiddordebau'r GE ym mhob maes (Erthygl 151(4), Cytuniad y GE).

Newidiwyd Cytuniad y GE gan Gytuniad Lisboa¹⁷, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2009. Daeth y Cytuniad hefyd â siarter hawliau dynol yr UE, sef y Siarter Hawliau Sylfaenol, i rym yn gyfreithiol yn y GE a'i Haelod Wladwriaethau¹⁸. Mae'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn datgan yn arbennig y bydd "yr Undeb yn parchu amrywiaeth ddiwylliannol, grefyddol ac ieithyddol"¹⁹.

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

Yn fwy perthnasol byth i'r cyngor hwn, mae cyfraith achos wedi cadarnhau ymagwedd Llys Cyfiawnder Ewrop tuag at ddeddfwriaeth genedlaethol sy'n diogelu a hyrwyddo ieithoedd swyddogol Aelod Wladwriaeth (nad oeddynt yn ieithoedd swyddogol yr UE) yng nghyd-destun y rhyddidau

sylfaenol yng Nghytuniad y GE.

Ym mis Mawrth 2009 cyhoeddodd Llys Cyfiawnder Ewrop ei ddyfarniad yn achos UTECA²⁰. Roedd yr achos yn ymwneud â her yn erbyn deddfwriaeth genedlaethol Sbaen oedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr teledu yn Sbaen glustnodi canran fawr o'u cyllid i gynhyrchu ffilmau yn unrhyw un o ieithoedd swyddogol Sbaen, y rhan fwyaf ohonynt ddim yn ieithoedd swyddogol yr UE. Er nad oedd yn "achos caffael" fel y cyfryw, mae'r dyfarniad yn yr achos yn nodi rhai gofynion allweddol iawn i sicrhau nad oes yr un mesur yn mynd yn groes i ryddidau sylfaenol Cytuniad y GE. Mae'r rhyddidau sylfaenol hyn yn cynnwys y rhyddid i ddarparu gwasanaethau trawsffiniol (Erthygl 49) y gwnaeth yr achos ymdrin yn benodol â hwy.

Mae crynodeb y dyfarniad yn nodi'r canlynol:

"Mae'n wir fod mesur o'r fath... yn cynnwys cyfyngiad ar sawl rhyddid sylfaenol, sef rhyddid i ddarparu gwasanaethau, rhyddid i sefydlu, symudiad rhydd cyfalaf a rhyddid symud i weithwyr."

"Ond gellir cyfiawnhau'r mesur drwy'r amcan o ddiogelu a hyrwyddo un neu nifer o ieithoedd swyddogol yr Aelod Wladwriaeth dan sylw. Yn hynny o beth mae mesur o'r fath... yn ymddangos yn briodol i sicrhau bod amcan o'r

¹⁵Paragraff 1(b) Erthygl 20 o Gonfensiwn UNESCO
¹⁶Cafodd Cytuniad y GE ei ailenwi yn Gytuniad ar Swyddogaeth yr Undeb Ewropeaidd (Treaty on the Functioning of the European Union (TFEU)) gan Gytuniad Lisboa a ddaeth i rym ar 01 Rhagfyr 2009. Cyfeirir at y Cytuniad ar Swyddogaeth yr Undeb Ewropeaidd fel Cytuniad y GE drwy gydol y cyngor hwn gan mai dyna y caiff ei alw'n gyffredin addeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

¹⁷http://europa.eu/lisbon_treaty
¹⁸Mae Cytuniad Lisboa yn cynnwys eithrio'r DU mewn perthynas â'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Effaith hyn yw, lle mae darpariaeth o'r Siarter yn cyfeirio at gyfreithiau neu arferion cenedlaethol, ni fydd ond yn berthnasol i'r DU i'r graddau y mae'r hawliau a'r egwyddorion ynddo wedi eu cydnabod yng nghyfraith neu yn arferion y Deyrnas Unedig (Cytuniad Lisboa – Protocol (Rhif 7)

¹⁹Erthygl 22

²⁰Achos C-222/07 UTECA v. Administración General del Estado (Llys Cyfiawnder Ewrop 5 Mawrth 2009)



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

fath yn cael ei gyflawni."

"Hefyd nid yw'n ymddangos bod mesur o'r fath yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw."

Mae rhan fwyaf yr ieithoedd sydd â statws swyddogol yn Sbaen (e.e. Catalaneg a Basgeg) yn ieithoedd swyddogol o fewn tiriogaethau penodol Teyrnas Sbaen yn unig. Yn yr un modd, Cymraeg yw'r iaith swyddogol yng Nghymru, nid yn y DU ehangach. Mae'r achos felly yn cadarnhau, er mwyn i ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg gael eu hymgorffori mewn proses dendro heb dorri rhyddid sylfaenol Cytuniad y GE, bod rhaid i'r mesur:

- ddiogelu neu hyrwyddo iaith swyddogol y wlad ("yr amcan")
- fod yn briodol i sicrhau bod yr amcan yn cael ei gyflawni
- beidio â mynd y tu hwnt i'r hyn sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan.

Er mwyn pennu rhwymedigaethau a osodir arnynt gan safonau iaith neu o dan eu cynlluniau iaith Gymraeg felly, rhaid i sefydliadau asesu pa ofynion sydd yn briodol ac yn angenrheidiol ar gyfer pob math o broses gaffael.

Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad gan yr awdurdod contractio o ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg a fyddai neu a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer gwasanaeth penodol dros gyfnod y contract. Mae'n bwysig ar y dechrau

bod unrhyw gynnydd posibl yn y gofynion hyn yn cael ei gynnwys yn y broses gaffael er mwyn sicrhau y gall contractwyr ymddwyn yn unol â'u rhwymedigaeth drwy gydol y contract.

Yn y dyfarniad yn achos UTECA aeth y barnwr yn ei flaen i ddatgan:

"Gallai'r maen prawf a ddefnyddir fel sail i'r mesur olygu mantais i... fentrau sy'n gweithio drwy gyfrwng yr iaith y cyfeirir ati yn y maen prawf hwnnw, ac fe allai hynny olygu, yn ymarferol, fantais i fentrau sydd yn yr Aelod Wladwriaeth lle mae'r iaith honno yn iaith swyddogol; ymddengys bod hynny'n anochel o ystyried yr amcan gwreiddiol. Ni all sefyllfa o'r fath, ynddi ei hun, fod yn brawf bod y mesur hwnnw yn anghymesur, gan y byddai hynny yn tanseilio'r gydnabyddiaeth bod amcan yr Aelod Wladwriaeth o ddiogelu a hyrwyddo un neu fwy o'i hieithoedd swyddogol yn rheswm pwysicach er budd y cyhoedd."

Yn fyr, ni ddylai awdurdodau contractio ymatal rhag ymgorffori gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y prosesau tendro oherwydd ei bod yn fwy tebygol y gallai sefydliadau gyda siaradwyr Cymraeg fod yn llwyddiannus. Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn derbyn bod hyn yn gyfyngiad teg ar ryddidau sylfaenol Cytuniad y GE cyn belled â bod y dull o gyflawni hyn yn briodol ac yn angenrheidiol.

Bernir bod yr arfer gorau a gynhwysir yn y cyngor hwn yn briodol ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno wrth osod gwaith ar contract.

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

Mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus a llawer o sefydliadau lled-gyhoeddus (y'u diffinnir fel "awdurdodau contractio") gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus, sy'n gosod rheolau a gweithdrefnau llym y mae'n rhaid cadw atynt ar gyfer rhai contractau gwaith, gwasanaethau neu nwyddau.

Mae gofyn i ddarparwyr cyfleustodau rheoledig hefyd gydymffurfio â Chyfarwydddeb y Cyfleustodau²¹ sy'n cynnwys gofynion cyffelyb. Gweithredir y Cyfarwyddbau hyn yng nghyfraith y DU drwy gyfrwng Rheoliadau²².

Nod y cyfarwyddbau yw agor maes caffael i gystadleuaeth ledled y GE ac maent yn ychwanegol at egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE sy'n berthnasol i ddyfarniad pob contract cyhoeddus²³. Yr egwyddorion perthnasol yw:

Triniaeth gyfartal a gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd;

Mesurau sy'n gymesur yng ngoleuni'r amcanion a geisir;

Tryloywder;

Cyd-gydnabyddiaeth o safonau a gwiriadau Aelod Wladwriaethau eraill.

Caiff y tair egwyddor gyntaf eu hadlewyrchu'n uniongyrchol o fewn y Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus.

Mae'r egwyddorion hyn yn ceisio sicrhau bod ymddygiad gwahaniaethol yn cael ei atal ar draws y GE. Y cyfyngiad hwn ar wahaniaethu rhwng Aelod Wladwriaethau all achosi pryder i sefydliadau cyhoeddus, yn enwedig wrth geisio ymgorffori ystyriaethau iaith a materion a osodwyd gan deddfwriaeth ddomestig yn unig mewn prosesau tendro.

Mae cyfraith achos caffael Llys Cyfiawnder Ewrop wedi arddel yn gyson bod mesurau sy'n llesteirio gallu i ddarparu gwasanaethau mewn Aelod Wladwriaeth (neu ran ohoni), neu sy'n gwneud darparu gwasanaethau o'r fath yn llai deniadol, yn gallu cyfyngu ar fasnach rydd fel y'i diogelir gan Gytuniad y GE. Penderfynwyd mewn achos caffael yn Llys Cyfiawnder Ewrop, Rüffert²⁴, bod deddfwriaeth ddomestig oedd yn achosi i fentrau o du allan yr Aelod Wladwriaeth golli eu mantais gystadleuol yn torri Cytuniad y GE. Fodd bynnag, roedd yr achos hwnnw'n ymwneud â deddfwriaeth oedd yn gamwahaniaethol ei heffaith gan na ellid ei chyfiawnhau gan yr amcan yr oedd yn ceisio ei ddiogelu.

O safbwynt rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg,

²¹Cyfarwydddeb 2014/25/EU y Senedd Ewropeaidd a Chyngor 26 Chwefror 2014 ar gaffael gan endidau sy'n gweithredu yn y sectorau gwasanaethau dŵr, ynni, trafnidiaeth a phost a diddymu Cyfarwydddeb 2004/17/EC (28.03.2014) ("Cyfarwydddeb Cyfleustodau")

²²Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (OS 2015 Rhif 10) a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (OS 2016)

²³Er nad yw'n glir i ba raddau y mae egwyddorion y Cytuniad yn berthnasol i gyfleustodau, mae Cyfarwydddeb y Cyfleustodau ei hun yn cynnwys gwaharddiad ar wahaniaethu ac mae'n ei gwneud yn gwbl ofynnol cael gweithdrefnau dyfarnu tryloyw (Erthygl 10)

²⁴Achos C-346/06 Dirk Rüffert v Land Niedersachsen 3 Ebrill 2008



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

mae achos UTECA yn cadarnhau na fyddai mesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn groes i Gytuniad y GE gan eu bod yn angenrheidiol, cyn belled â'u bod yn cael eu gweithredu mewn modd sy'n briodol. Mae achosion cynharach hefyd wedi arddel yn gyson bod mesurau o'r fath yn gyfiawn os dilynant amcan dilys sy'n gydnaws â'r Cytuniad ac os cyfiawnheir hwy gan resymau pwysicach er budd y cyhoedd²⁵.

Mae achos diweddar Stadt Landau²⁶ yn cadarnhau eto y caniateir i weithredwr hefyd gael ei eithrio rhag bod yn rhan o broses gaffael am fethiant i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad yma yn ei dendr, pan fo'r broses gaffael yn cynnwys amod sydd wedi ei osod gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac a gyfiawnheir fel dilyn amcan dilys sy'n gydnaws â'r Cytuniad.

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

Dim ond i rai mathau penodol o contractau sector cyhoeddus sydd â gwerth penodol y mae gofynion llym y Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yn berthnasol²⁷. Lle mae'n ofynnol caffael contractau yn unol â'r Gyfarwydddeb, mae'r rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i endidau hysbysebu eu contractau yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a dyfarnu contractau drwy weithdrefn benodol. Mae'r rheolau yn ymdrin yn benodol iawn â'r hyn y gellir ei

ystyried yn ystod gwahanol gyfnodau'r broses dendro. Isod ystyrir effaith gyfreithiol pob un o'r rhain o ran ymgorffori gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Ceir enghreifftiau ymarferol o sut i gymhwyso'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn yn Rhan 3.

2.2.2.a. Y cymal dethol

Cyn ymgymryd â'i werthusiad llawn²⁸, gall awdurdod contractio eithrio tendrwr o'r broses gaffael os yw'r sail a nodir yn Erthygl 57 yn gymwys, neu os bydd yn methu â diwallu safonau isaf statws ariannol neu allu technegol neu broffesiynol. Rhaid nodi'r safonau isaf hyn yn yr hysbysiad contract a rhaid iddynt fod yn berthnasol ac yn gyfatebol â phwnc y contract²⁹.

i. Sail dros eithrio

Mae Erthygl 57 yn ymwneud yn bennaf ag eithrio tendrwr os yw wedi ei gael yn euog o drosedd. Un mater ychwanegol a fydd yn berthnasol yw pan fo tendrwr "wedi dangos diffyg sylweddol neu barhaus ym mherfformiad gofyniad o sylweddol neu dan contract cyhoeddus blaenorol, [neu] contract blaenorol gydag endid contractio... a arweiniodd at ddod â'r contract blaenorol hwnnw i ben yn gynnar, at iawndal neu gosb arall gyffelyb".

Pan fo'r perfformiad dan sylw yn ymwneud â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol o safbwynt y Gymraeg a'r cyhoedd,

²⁵Bosman (dyfynnwyd yn nhroednodyn 56), paragraff 104; Comisiwn v Portiwgal (dyfynnwyd yn nhroednodyn 56), paragraff 49; Achosion ar y cyd C-92/04 a C-202/04 Cipolla ac eraill [2006] ECR I-11421, paragraff 61; Achos C-438/05 y Ffederasiwn Gweithwyr Cludiant Rhyngwladol ac Undeb Morwyr y Ffindir [2007] ECR I-10779 ("VikingLine"), paragraff 75; ac Achos C-341/05 Laval un Partneri [2007] ECR I-11767, paragraff 101

²⁶RegioPost GmbH & Co. KG v Stadt Landau in der Pfalz C115/14 o 17 Tachwedd 2015

²⁷I gael rhagor o wybodaeth am drothwyon a chontractau wedi'u rheoleiddio gweler <http://prp.wales.gov.uk/planners/general/phase2/procurementbelowjeuthreshold>

²⁸Mae'r Gyfarwydddeb yn caniatáu archwilio tendrau cyn gwredu'r gofynion dethol mewn sefyllfaoedd penodol - Erthygl 56(2).

²⁹Cyfarwydddeb Contract Cyhoeddus Erthygl 58



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

byddai methu â gwneud hyn yn golygu methiant i gyflawni rhwymedigaeth cyfreithiol. Mae'n bwysig felly bod contractau'n cynnwys rhwymedigaethau a chanlyniadau clir ar gyfer methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau iaith Gymraeg, fel bod tystiolaeth o'r diffygion perfformiad a'r cosbi wrth ystyried cymwysterau ar gyfer cyfleoedd caffael yn y dyfodol.

Dylid nodi mai dim ond pan fo diffyg sylweddol neu barhaus wedi digwydd o fewn y tair blynedd ddiwethaf y ceir defnyddio'r sail hon dros eithrio³⁰. Yn ogystal, mae'r Gyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yn cynnig trefn sy'n adfer ei hun ('self-cleaning') pan fo contractwr mewn sefyllfa neu yn y diffyg parhaus y cyfeirir ato uchod. Mae hyn yn caniatáu i'r contract ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod y camau a gymerwyd gan y contractwr yn ddigonol i ddangos ei ddibynadwyedd er gwaethaf y sail dros eithrio³¹.

Rhaid i'r contractwr brofi ei fod wedi ymrwymo i iawndal perthnasol, wedi cydweithio â'r awdurdodau sy'n cynnal yr ymchwiliad, ac wedi cymryd camau technegol, sefydliadol a phersonél concred sy'n briodol er mwyn atal mwy o gamymddwyn.

Rhaid i'r awdurdod contractio ystyried a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol, ac os byddant yn penderfynu nad yw'r camau'n ddigonol, rhaid iddynt roi datganiad i'r contractwr o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Byddai hysbysu contractwyr y gallai methu diwallu rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg fod yn sail dros eu heithrio o brosesau caffael yn y dyfodol yn anogaeth gref i gontractwyr ddangos eu hufudd-dod. Fodd bynnag, dylid gwneud yn glir i gontractwyr y bydd unrhyw esgeulustod yn cael ei ystyried fesul achos.

ii. Safonau isaf

Wrth osod safonau isaf y mae'n rhaid i gontractwr gydymffurfio â hwy er mwyn i'w dendr gael ei werthuso, gall awdurdod contractio roi ystyriaeth i rai gofyniadau a dulliau o brofi cyfyngedig a nodir yn y Gyfarwydddeb. Rhaid i bob gofyniad fod yn berthnasol ac yn gymesur.

O ran yr angen i ddiwallu rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg, y "dull" mwyaf perthnasol yw'r gallu i sicrhau:

Bod gan y gweithredwr economaidd yr adnoddau dynol a thechnegol a'r profiad i gyflawni'r contract i safon o ansawdd briodol.

Gall y gofyniad hwn gynnwys prawf o allu a phrofiad y contractwr i gyflwyno'r gwasanaethau angenrheidiol yn y Gymraeg. Er mwyn bod yn gymesur rhaid i'r safonau isaf ystyried diben a maint y gofyniad hwn.

Er enghraifft, ni fyddai cwestiwn generig ynglŷn â sawl siaradwr Cymraeg y mae'r contractwr yn eu cyflogi, gan roi sgôr uwch i nifer uchel o gyflogeion, yn briodol i bob

³⁰Public Contracts Regulations 2015 Adran 57(12)

³¹Cyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus Erthygl 57(6)



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

contract. Gall rhai contractau ragweld lefel uchel o angen am gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg, ond ni fydd cymaint o angen mewn achosion eraill.

Gall cwestiwn priodol felly ymchwilio i allu'r contractwr i gyflawni'r contract drwy gyfrwng y Gymraeg yn seiliedig ar lefelau uchel neu isel o anghenion gwasanaeth fel bo'n briodol. Fodd bynnag, hyd yn oed lle cafwyd lefelau isel o angen yn y gorffennol, mae'n bwysig bod contractwr yn gallu ymateb i unrhyw nifer o ddefnyddwyr sydd am dderbyn gwasanaethau Cymraeg o'r fath drwy gydol cyfnod y contract.

Byddai'n briodol hefyd felly ymchwilio i'r prosesau a ddefnyddiwyd ganddynt i ymateb i lefelau newidiol o alw mewn contractau blaenorol.

Rhaid nodi'r gofynion lleiaf yn yr hysbysiad contract (neu yn y ddogfennaeth cyn cymhwyso) a dylai hyn gael ei gefnogi gan awdurdodau contractio gyda manyleb glir yn esbonio'r gofynion (gweler mwy o fanylion yn adran 3.1.2 isod). Dylai awdurdodau contractio hefyd nodi nad yw'n dderbyniol gofyn am wybodaeth na fydd yn cael ei sgorio. Dylent felly ystyried yn ofalus pam fod angen y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae angen bod yn ofalus hefyd wrth osod y sgôr isaf y dylid ei chyflawni ar gyfer cwestiynau o'r fath a thrafodir ymarferoldeb hyn ymhellach yn Rhan 3.

I gael rhagor o wybodaeth am ganllaw cyffredinol yn y cymal dethol gweler <http://prp.wales.gov.uk/planners/general/planning/selectioncriteria/>

2.2.2.b. Y cymal gwerthuso

Ar ôl y cymal dethol cychwynnol, gall awdurdod contractio werthuso tendrau er mwyn penderfynu a ddylai ddyfarnu'r contract ai peidio.

Gall awdurdod contractio ddyfarnu contract ar sail y cynnig sydd fwyaf manteisiol yn economaidd o safbwynt yr awdurdod contractio. Rhaid i awdurdod contractio ddefnyddio meini prawf sydd yn gysylltiedig â chynnwys y contract i benderfynu mai cynnig penodol yw'r un sydd fwyaf manteisiol yn economaidd. Caiff y meini prawf hynny gynnwys ansawdd, pris, teilyngdod technegol, nodweddion esthetig a gweithredol, cynllun ar gyfer pob defnyddiwr, nodweddion cymdeithasol ac amgylcheddol, costau rhedeg, trefniadaeth, cymhwyster a phrofiad y staff, gwasanaeth ar ôl gwerthu, cymorth technegol, dyddiad cyflwyno a chyfnod cyflwyno a chyfnod cwblhau.

Gan fod rhaid i'r meini prawf a ddefnyddir fod yn gysylltiedig â chynnwys y contract, rhaid i awdurdodau contractio benderfynu'n union beth sy'n ofynnol gan dendrwy'r er mwyn cyflwyno gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg dros holl gyfnod y contract.

Gan fod rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn orfodol wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru y maent, yn eu hanfod, yn gysylltiedig â chynnwys y contract. Ond gall pwysigrwydd y meini prawf hynny ddibynnu ar natur y contract a gyflwynir a pha mor berthnasol i'r contract yw cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu ba mor berthnasol y gallai fod.



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwydddebau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Rhaid i awdurdod contractio sicrhau bod y meini prawf y mae'n eu gosod a'r cwestiynau a ofynnir i dendrwy'r mwyn mynegi'r meini prawf hynny, yn dal i gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol Cytuniad y GE.

Rhaid pennu'r meini prawf dyfarnu yn yr hysbysiad contract neu yn nogfennau'r contract a dylai gynnwys pwysoli'r meini prawf yn ôl eu pwysigrwydd³². Hefyd, rhaid i feini prawf dyfarnu beidio ag ailadrodd meini prawf a ddefnyddiwyd yn ystod y cymal dethol na defnyddio gwybodaeth a gafwyd bryd hynny.

Mae'n hanfodol felly bod awdurdodau contractio yn ystyried pa mor bwysig yw rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer pob contract penodol ar y cychwyn er mwyn i hysbysiadau, manylebau a dogfennau contract gael eu drafftio'n gyson ac yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r broses dendro ystyried mewnbwn gan bersonél ehangach yn yr awdurdod na'r adran bwrcasu yn unig (i bolisiau mewnol cyffredinol neu fesul achos yn ôl yr angen).

Dylai canllawiau manwl a baratowyd gan yr adran bwrcasu ganolog ar gyfer swyddogion caffael sy'n rheoli prosesau cynnal tendr gynnwys mewnbwn clir gan swyddogion strategol yr awdurdod, megis swyddogion iaith Gymraeg.

Wrth gynnal proses benodol gyda'r canllawiau canolog hynny, mae swyddog caffael yn debygol o fod angen cysylltu â'r swyddogion hynny, yn ogystal â'r adran y mae'r contract

yn cael ei osod ar ei chyfer, er mwyn adlewyrchu yn gywir natur a lefel y gwasanaeth dwyieithog y bydd ei angen. Dylai'r cyfarwyddyd canolog gynnwys rhestr wirio i atgoffa'r swyddog caffael o'r cam hwn. Cynhwysir enghraifft o restr wirio yn Atodlen 2.

2.2.2.c. Amodau contract

Yn amlwg mae'n bwysig fod contractwr yn cadw at amodau'r contract sy'n adlewyrchu'r broses dendro a gynhaliwyd i'w ddethol. Fodd bynnag mae amodau contract ar wahân yn llwyr i'r manylebau technegol a'r gofynion dethol a dyfarnu. Er bod rhaid i gontractwyr dderbyn amodau'r contract er mwyn ennill y contract (a dylent felly gael set lawn o amodau perthnasol), ni ddylid gofyn fel rheol am dystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r rhain yn ystod y cymal dethol na'r cymal dyfarnu. Nid yw'n bosibl "gwerthuso" cydymffurfiaeth ag amodau penodol contract fel rhan o'r broses dendro.

Ond gall, ac yn wir fe ddylai, contract gynnwys ymrwymïadau sy'n gorfodi contractwyr i gyflwyno rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg y maent wedi ymroi iddynt yn y broses. Mae technegau ar gyfer cyflawni hyn yn effeithiol wedi eu cynnwys yn adran 3.1.5 isod.

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

Fel y dangoswyd eisoes, gall fod llawer o gontractau sector cyhoeddus nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y Cyfarwydddebau a drafodwyd. Ar gyfer y sector cyhoeddus,

³²Gellir gosod meini prawf yn ôl trefn pwysigrwydd ddisgrynnol, ond dim ond pan fernir nad yw'n bosibl pwysoli, am resymau gwrthrychol. Mae'r Comisiwn wedi nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn dderbyniol.



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

crynhir y rhain yn fras fel tri chategori gwahanol, sef (i) contractau a eithir (ii) contractau is na'r trothwy a (iii) Contractau trefn lai manwl³³.

Hyd yn oed os nad yw proses dendro yn ddarostyngedig i'r Cyfarwyddbau Contractau Cyhoeddus (er enghraifft am fod gwerth amcangyfrifedig contract yn is na'r trothwy perthnasol), mae egwyddorion seiliedig ar Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys mewn perthynas â pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chymesured. Pan fo'r awdurdod yn ystyried ei bod yn debygol y bydd contract yn denu diddordeb trawsffiniol, mae'n rhaid iddo gyhoeddi hysbysebu sy'n ddigon hygyrch i sicrhau bod cyflenwyr mewn Aelod Wladwriaethau eraill yn cael mynediad i'r wybodaeth briodol cyn dyfarnu'r contract. Mae hyn yn unol ag amcan y DU o sicrhau gwerth am arian ym mhob caffael cyhoeddus - nid y rhai sy'n dod o dan y Cyfarwyddbau Contractau Cyhoeddus yn unig. Mae'n debyg y bydd angen rhywfaint o hysbysebu (yn briodol i faint y contract), er mwyn sicrhau tryloywder pan fo'r contract yn debygol o ddenu diddordeb trawsffiniol.

Mae'r dehongliad a'r egwyddorion cyfreithiol a eglurir yn y cyngor hwn yn ymdrin bron yn gyfan gwbl â rhyddidau ac egwyddorion sylfaenol Cytuniad y GE. Mae'n bwysig felly bod sefydliadau cyhoeddus neu gyfleustodau rheoledig yn arfer dull cyson o weithredu o ran pob contract i gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus a roddir allan i dendr.

Os yw contract yn un sy'n dod o dan y Cyfarwyddbau, mae materion ymarferol fel yr angen i gyhoeddi hysbysiadau neu ddogfennau contract yn iaith swyddogol yr UE yn hawdd ymdrin â hwy (gweler adran 1.4 uchod). Ond mae'r egwyddorion sy'n sail i'r argymhellion hyn yr un mor berthnasol i brosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE, gan fod yn rhaid i'r camau a weithredir gan yr awdurdodau contractio i osod rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg mewn prosesau tendro fod yn angenrheidiol a phriodol bob amser.

Er bod rhaid i awdurdodau contractio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau llym y Gyfarwydddeb, pan fydd contract yn dod o dan y rheolau hynny bernir bod gofynion llym o'r fath yn ychwanegu at yr egwyddorion cyffredinol a nodir yn y cyngor hwn a'u bod yn gyson â hwy yn hytrach nag yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar yr egwyddorion hynny.

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

Polisi caffael Llywodraeth y DU yw y dylid seilio pob caffaeliad cyhoeddus ar ei 'werth am arian', gan roi sylw priodol i briodoldeb a rheoleidd-dra. Mae'r polisi hwn wedi ei nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (adran 2.2 ac atodiad 4.5) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016. Lansiodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2012.

³³Mae'r drefn lai manwl yn disodli hen drefn Rhan B er ei bod yn llawer mwy cyfyngedig. I gael mwy o wybodaeth am y drefn lai manwl, gweler dogfen Gwasanaeth Masnachol y Goron "Guidance on the new Light Touch Regime for Health, Social, Education and certain other service contracts" yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/409543/GUIDANCE_ON_THE_NEW_LIGHT_TOUCH_REGIME_FOR_HEALTH_SOCIAL_EDUCATION_AND_CERTAIN_OTHER_SERVICE_CONTRACTS.pdf



Rhan 2 – Gofynion cyfreithiol

2.1. Dyletswyddau iaith cyfreithiol

2.1.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

2.1.2. Confensiwn UNESCO

2.1.3. Cytuniad y GE

2.1.4. Deddfwriaeth iaith Gymraeg a Chytuniad y GE gyda'i gilydd

2.2. Gofynion cyfreithiol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

2.2.1. Rheolau'r GE

2.2.2. Contractau yr ymdrinnir â hwy gan y Cyfarwyddbau (caffaeliadau "OJEU")

2.2.3. Prosesau caffael nad ydynt yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE

2.2.4. Rhwymedigaethau Gwerth Gorau

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

2.2.5. Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA)

Fodd bynnag, rhaid i feini prawf dyfarnu roi sylw i holl ofynion gorfodol y fanyleb a rhwymedigaethau cyfreithiol darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau. Fel y trafodir yn y cyngor hwn, rhaid i rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg fod yn rhan o feini prawf o'r fath er mwyn asesu gallu contractwr i gyflwyno gwasanaeth gwerth gorau sy'n cydymffurfio.

Llofnodwyd y Cytundeb ar Gaffael Llywodraeth (GPA) ym Marrakesh ar 15 Ebrill 1994. Mae'r GPA yn sefydlu fframwaith cytûn o hawliau a rhwymedigaethau ymhlith ei Bartïon o ran eu deddfau, eu rheoliadau, eu gweithdrefnau a'u harferion cenedlaethol ym maes caffael llywodraeth.

Nid yw pob proses gaffael cyhoeddus yn cael ei chynnwys yn y GPA³⁴, ond lle cynhwysir hwy mae'n ofynnol i'r Partïon yn y Cytundeb drin cynnyrch, gwasanaethau a chyflenwyr unrhyw Barti arall yn y Cytundeb mewn modd "nad yw'n llai ffafriol" na'r modd y byddent yn trin cynnyrch, gwasanaethau a chyflenwyr domestig. Mae'n ofynnol hefyd nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn nwyddau, gwasanaethau a chyflenwyr Partïon eraill.

Fel cytundeb rhyngwladol, dehonglir y GPA yng ngoleuni deddfau a chytundebau rhyngwladol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y confensiynau rhyngwladol y cyfeiriwyd

atynt uchod. Nid ystyrir bod y GPA yn gosod unrhyw rhwymedigaethau neu ofynion ychwanegol nac yn gofyn am lai na'r rhai a drafodwyd uchod sy'n deillio o Gytuniad y GE.

³⁴Nid yw'r GPA yn rheoleiddio cyfleustodau, dim ond sefydliadau cyhoeddus



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

Mae'n ddoeth rhannu proses gaffael y rhan fwyaf o gontractau yn bedwar cymal, os yw'n gontract o dan ofynion llawn y Cyfarwydddebau ai peidio, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal mewn dull perthnasol, tryloyw a theg³⁵. Mae'r pedwar cymal fel a ganlyn: sefydlu gofynion y contract, sefydlu'r fanyleb, cynnal proses ddethol gychwynnol ac, yn olaf, gwerthuso cynigion er mwyn dyfarnu'r contract.

3.1.1. Adnabod y gofynion

Cyn lansio proses gaffael yn ffurfiol mae'n ddefnyddiol amlinellu'r gofynion cyfredol y gwyddys amdanynt ar gyfer y contract a fydd yn cael ei ddyfarnu. Mae hyn yn arbennig o wir os bydd yn ymwneud â dyfarnu contract i gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus ar ran yr awdurdod contractio.

Er bod rhaid i gontractwr allu cyflwyno'r gwasanaeth i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth sydd angen y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r gofynion a sefydlwyd yn adran 2.2 yn cadarnhau bod rhaid i awdurdod contractio fod yn eglur o'r cychwyn ynglŷn â hyd a lled yr amgylchiadau ieithyddol sy'n berthnasol i'r contract penodol hwnnw.

Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod contractio i osod gofynion priodol er mwyn i'r contractwr dendro yn eu herbyn ac, yn y pen draw, eu cyflawni.

Er mwyn sefydlu hyn bydd angen i'r awdurdod contractio styried y mathau o amgylchiadau perthnasol i'r contract

penodol hwn lle bydd angen bodloni dewis iaith.

Er enghraifft, pa rai o'r amgylchiadau canlynol sy'n berthnasol i'r contract:

- Wyneb yn wyneb – darparu cyswllt dwyieithog i wasanaethu'r cwsmer.
- Gohebiaeth – ysgrifennu yn unol â dewis iaith y derbynnydd.
- Ffôn – ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac ymateb i alwyr yn eu dewis iaith. Rhaid i negeseuon ar beiriannau ateb fod yn ddwyieithog.
- Cyfarfodydd cyhoeddus – galluogi'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus i siarad Cymraeg neu Saesneg.
- Llenyddiaeth – rhaid i lenyddiaeth gyhoeddus yn cynnwys ffurflenni, taflenni, llyfrynau, deunydd eglurhaol, hysbysebion a chyhoeddusrwydd fod ar gael yn ddwyieithog.
- Hysbysebion – rhaid i hysbysebion sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol neu wybodaeth am hyrwyddo a recriwtio ac ati fod yn gwbl ddwyieithog.
- Darparu gwasanaeth – darparu gwasanaethau i gleient yn ei ddewis iaith, er enghraifft gwasanaethau gofal yn y cartref, gofal preswyl a grwpiau chwarae.

Argymhellir hefyd fod staff caffael yn trafod â chwsmeriaid mewnol h.y. y rhai hynny sy'n gweithio yn y maes gwasanaeth penodol dan sylw (e.e. cydweithwyr gofal cymdeithasol) er mwyn darganfod i ba raddau yr oedd y

³⁵ I gael mwy o wybodaeth am gynllunio a chynnal proses gaffael, cyfeirier at Gynlluniwr Siwrai Caffael Gwerth Cymru yn <http://prp.wales.gov.uk/>



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, a chyfradd y defnydd. Gallant hefyd weld a fu cynnydd (neu ostyngiad) yn narpariaeth y gwasanaeth a'r defnydd a wneir ohono o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, dylai swyddogion fod yn ymwybodol nad yw'r wybodaeth hon o reidrwydd yn adlewyrchu'r angen posibl yn y gorffennol na'r dyfodol am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a gall fod yn amodol ar ffactorau eraill megis ymwybyddiaeth defnyddwyr y gwasanaeth, monitro a hyrwyddo (neu ddiffyg monitro a hyrwyddo) gan gontractwyr yn y gorffennol ac ati.

Dylai swyddogion caffael hefyd ymgynghori â swyddogion iaith Gymraeg mewnol er mwyn cynnwys unrhyw bolisiau neu dueddiadau cyfredol a welir yng nghyd-destun defnydd gwasanaethau Cymraeg. Yn ogystal â ffigurau, os yn bosibl byddai'n ddefnyddiol darganfod a oes unrhyw rwystrau i fynediad at wasanaethau a ddarperir yn unol â'r contract penodol hwn yn yr iaith Gymraeg.

Dylai swyddogion caffael hefyd geisio sefydlu sut y cafwyd y ffigurau a ddarparwyd. Os nad oes gwybodaeth am y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg nac ychwaith graddau'r ddarpariaeth, neu os na fu modd monitro hyn mewn contractau blaenorol, dylid trin ffigurau o'r fath fel amcangyfrifon. Byddai hyn yn pwysleisio ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol cynnwys gofyniad yn y fanyleb ar y contractwr i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar y gwasanaeth Cymraeg.

Er enghraifft, os yw'r contract yn un ar gyfer darparu gofal

i'r henoed dylai'r awdurdod contractio ddarganfod nifer bresennol y defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal y mae'r contract yn berthnasol iddi ac unrhyw newid y gellir ei nodi neu ei amcangyfrif yn yr angen hwnnw. Defnyddwyr yn yr ystyr hwn fyddai'r bobl oedrannus eu hunain ond gall hefyd gynnwys eu teuluoedd.

Er enghraifft, os bydd darparwyr cyfredol neu arolygiaeth gofal yn nodi mai dim ond 3% o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gall fod yn briodol i'r awdurdod contractio ymchwilio ymhellach i weld a yw pob defnyddiwr gwasanaeth wedi cael holiadur ar y mater hwn. Os nad oes ffigurau cynhwysfawr ar gael cyn lansio'r broses gaffael, dylai hyn fod yn ofyniad a gynhwysir yn y fanyleb er mwyn i'r contractwr ei gyflawni yn ystod cyfnod y contract. Byddai'r broses dendro yn asesu eu gallu a'u dull gweithredu er mwyn gallu cynnal ymarferiad o'r fath ac ymateb iddo.

Os nad yw contract ar gyfer math penodol o wasanaeth wedi'i ddyfarnu o'r blaen, mae'n bosibl y byddai swyddogion caffael yn dymuno ymgynghori gyda sefydliadau eraill sydd wedi dyfarnu contractau o'r fath a/neu'r Comisiynydd er mwyn cael syniad ystyrlon o'r ddarpariaeth ddwyieithog cyfredol ynghyd â chyfraddau defnyddio.

Argymhellir hefyd bod awdurdodau contractio yn ymgymryd ag adolygiad cyffredinol o'r contractau a'r cytundebau sydd ar waith (neu sydd i'w rhoi ar dendr) er mwyn asesu swm a sylwedd y gwasanaethau i'r cyhoedd a chydymffurfiaeth



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

bresennol â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Atodir holiadur pro forma yn Atodlen 6 isod a allai fod o gymorth i sefydliadau gynnal adolygiad. Gellir defnyddio'r holiadur wedyn i gynnal asesiadau cyfnodol yn y dyfodol.

3.1.2. Gosod manyleb

Mae manyleb yn nodi gofynion y contract er mwyn i contractwyr allu tendro'n briodol ac yna gweithredu yn unol â'r gofynion hynny.

Nid yw ffurf manyleb yn haearnidd a gall amrywio'n fawr. Gyda chontract a reolir gan y Cyfarwyddbau, rhaid cyhoeddi'r fanyleb ar adegau penodol yn y broses a rhaid iddi fod ar gael am gyfnodau penodol o amser. Ond ar gyfer pob proses gaffael ni ddylai'r fanyleb a lunnir fod yn wahaniaethol, a dylai fod yn gost effeithiol, yn briodol ac yn gymesur.

Mae manylebau ar gyfer prynu gwasanaethau yn debygol o fod yn llawer mwy cymhleth na manylebau ar gyfer prynu nwyddau. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda nwyddau, mae'n bosibl y bydd angen ystyried gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg er mwyn sicrhau y gall y contractwr gynnwys hyn yn ei gynnig a'i bris.

Er enghraifft, mewn cytundeb ar gyfer cynhyrchu gwisgoedd staff, gallai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol cynnwys gofyniad fod y contractwr yn brodio dull i ddynodi p'un a yw staff yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Er bod y Comisiynydd yn darparu bathodynau am ddim i unrhyw un er mwyn

dynodi'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n bosibl na fyddai bathodynau yn addas ar gyfer rhai o feysydd gwaith y staff.

Gall cynnwys gofyniad o'r fath fod dangosydd iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r contractio sicrhau bod hyn yn cael ei ddynnu fel rhan o'r tendr, a gall y contractwr sicrhau bod unrhyw hawl sydd ei hangen i atgynhyrchu dyluniad ar gael lle byddai angen hynny.

Ar ôl pennu gofynion posibl yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer contract penodol, rhaid i'r awdurdod contractio ddehongli'r gofynion er mwyn creu'r fanyleb. Gall y fanyleb nodi rhai gofynion craidd mewn perthynas â'r Gymraeg ac yna fanylu ymhellach ynglŷn â rhai gofynion perfformiad neu ofynion gweithredol. Mae gofyniad craidd yn rhan hanfodol o'r contract, fel y gofyniad i ddarparu'r gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl angen defnyddwyr y gwasanaeth. Dylai'r gofyniad craidd egluro a oes rhaid cynnwys gwasanaethau llafar neu ysgrifenedig ai peidio (er enghraifft llinellau cymorth, cyswllt uniongyrchol neu wasanaethau ysgrifenedig yn unig), a oes angen llenyddiaeth gwybodaeth neu lenyddiaeth hyrwyddo ai peidio neu arddangos unrhyw arwyddion eraill i'r cyhoedd fel rhan o'r gwasanaeth.

Gellir gosod manylebau drwy gyfeirio at anghenion perfformiad neu anghenion gweithredol. Os gall yr awdurdod contractio ddisgrifio'r deiliant gofynnol ar gyfer elfennau iaith Gymraeg y contract, yna anogir y contractwyr



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

i gynnig eu hatebion gwreiddiol eu hunain i sicrhau bod y gofyniad gwasanaeth hwn yn cael ei fodloni.

Mae angen i'r awdurdod contractio allu asesu gallu contractwyr i gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Nid yw polisi iaith nac ymrwymiad ar ran y contractwr i gydymffurfio â deddfwriaeth iaith Gymraeg yn debygol o fod yn ddigonol. Yn ddelfrydol dylai'r fanyleb ddisgrifio deilliant iaith mwy penodol yn seiliedig ar y contract arbennig hwnnw, er mwyn galluogi contractwyr i arddangos eu gallu yn unol â hynny.

Er enghraifft, mewn proses gaffael ar gyfer dyfarnu contract i ddarparu hyfforddiant yn y gymuned:

"Rhaid i'r hyfforddiant gael ei ddarparu yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl angen defnyddwyr y gwasanaeth ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd angen i gontractwyr ddangos y bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal mewn dull sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo'r gallu hwn o'r dechrau i'r diwedd h.y. marchnata'r hyfforddiant, delio ag archebion, cydlynu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth a darparu llenyddiaeth gefnogol."

Gall profiad blaenorol o wasanaeth arbennig, fodd bynnag, ddangos i awdurdod contractio mai nifer fechan o bobl oedd yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn yr ardal honno, os o gwbl. Gall fod angen i awdurdodau contractio asesu yn fewnol a ellir priodoli hyn i resymau eraill (megis diffyg ymwybyddiaeth bod y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg).

Gallai'r holiadur pro forma yn Atodlen 6 isod gynorthwyo yn hyn o beth. Mae manylion pellach ar ddefnyddio'r pro forma yn adran 3.1.1 uchod.

Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd bod y fanyleb yn gymesur â'r gofyniad. Ni ddylai'r fanyleb, er enghraifft, fynnu bod rhaid i bob unigolyn sy'n darparu gwasanaeth fod yn ddwyieithog lle mai cyfradd isel o ddefnydd a fu. Ond rhaid i'r awdurdod contractio sicrhau y bodlonir y rhwymedigaeth cyfreithiol bod unrhyw wasanaethau o'r fath ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Er enghraifft, mae awdurdod contractio yn ei gwneud yn ofynnol bod contractwr yn darparu gwasanaethau cefnogi i gymunedau penodol yng nghyd-destun atal digartrefedd ymysg pobl ifanc. Gall yr awdurdod contractio ddeall mai ychydig o anghenion iaith Gymraeg sydd yn y cymunedau dan sylw, os o gwbl.

Dylai'r fanyleb nodi hyn yn glir er mwyn i gontractwyr allu cynllunio yn unol â hynny. Ond dylai'r fanyleb ailbwysleisio'r gofynion cyfreithiol os bydd angen gwasanaethau iaith Gymraeg ar unrhyw un o'r cymunedau hynny. Dylai egluro bod rhaid i gontractwyr allu ymateb i'r angen hwn ar sail gyfartal wrth iddo godi, a rhaid iddynt ddangos hyn yn eu tendr. Dylai'r fanyleb hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr fonitro a hyrwyddo dewisiadau iaith Gymraeg.

Noder - yn yr amgylchiadau penodol hyn mae'n annhebygol y bydd yn hanfodol i'r contractwr ddangos ar unwaith ei allu



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

i gyflwyno'r gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler adrannau 3.1.3 a 3.1.4 isod ar ddedhol a gwerthuso).

Wrth ymateb i'r fanyleb hon gall contractwr nodi bod ganddynt staff sydd yn siarad Cymraeg a fyddai'n cael eu clustnodi ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hynny a dull dwyieithog i adnabod a hyrwyddo defnydd posibl o wasanaethau Cymraeg. Dewis arall fyddai iddynt nodi y byddai modd iddynt recriwtio neu is-gontractio gofyniad o'r fath pe byddai'n codi a defnyddio cyfieithwyr fel mesur dros dro. Mae'n annhebygol y byddai dibynnu yn barhaol ar gyfieithwyr yn dderbyniol lle mae gofyn am gyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd fel rhan o'r gwasanaeth, gan na fyddai hyn yn cael ei weld yn fodd o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Gallai'r awdurdod contractio ddymuno cynnig defnyddio gwasanaeth ei gyfieithwyr mewnol dros dro (os oes rhai ganddo) mewn amgylchiadau o'r fath ond, os felly, byddai angen cynnig hyn i bob contractwr yn y fanyleb er mwyn sicrhau nad yw'n wahaniaethol. Gall contractwyr, fodd bynnag, ddymuno defnyddio cyfieithwyr yn barhaol i gynorthwyo gyda chynhyrchu dogfennaeth neu arwyddion dwyieithog.

Mae'n bwysig nodi y dylai'r fanyleb ganolbwyntio ar y gofynion sy'n berthnasol i gynnwys contract yn unig ac ni ddylai osod gofynion cymdeithasol ehangach.

Er enghraifft, gall manyleb am wasanaethau adsefydlu 2 flynedd i ddefnyddwyr cyffuriau nodi yr amcangyfrifir bod tua 10% o ddefnyddwyr y gwasanaeth angen y gwasanaeth

drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod cyfnod y contract. Byddai'n mynd yn ei flaen i nodi bod angen i wasanaethau cynghori gael eu darparu yn Gymraeg i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Mae angen i lenyddiaeth gwybodaeth a ddarperir i gefnogi'r gwasanaeth hwn fod yn ddwyieithog hefyd, yn ogystal ag unrhyw bosteri neu wybodaeth marchnata yn hyrwyddo'r gwasanaeth.

Gallai'r fanyleb fynd ymlaen i'w gwneud yn ofynnol i gontractwyr fonitro'r galw a hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg er mwyn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol y gallant drafod drwy gyfrwng y Gymraeg pe dymunant wneud hynny.

Onid ni ddylai'r fanyleb ddatgan bod rhaid i'r contractwr gyflogi canran benodol o staff sy'n siaradwyr Cymraeg na bod rhaid iddynt sicrhau bod eu staff yn dysgu Cymraeg. Byddai gofyniad o'r fath yn mynd y tu hwnt i anghenion y contract ac yn pennu sut y dylai'r contractwr reoli eu busnes y tu hwnt i unrhyw ddyletswydd gyfreithiol uniongyrchol sydd ganddynt.

O dro i dro bydd nifer o sefydliadau cyhoeddus yn cynnal astudiaethau peilot mewn gwahanol feysydd gwasanaeth a fydd yn gymorth iddynt lunio manylebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Er enghraifft, cynhaliodd consortiwm o 10 cyngor sir gynllun peilot yn ymwneud â darparu gwasanaethau llety i blant



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

sy'n derbyn gofal. Roedd y fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr weithredu yn unol â Chontract Fframwaith Cymru Gyfan lle câi eu manylion eu categoreiddio yn ôl y gwasanaethau y gallent eu cynnig, gan gynnwys yr ieithoedd a siaredir.

Byddai'r holl ddarparwyr a allai fodloni gofynion gofal a gofynion iaith cleient newydd yn derbyn e-bost yn gofyn iddynt gymryd rhan mewn cystadleuaeth fechan i ddiwallu'r gofynion hynny. Byddai'r cyngor perthnasol yn ystyried yr holl dendrau a dderbyniwyd fel rhan o'r gystadleuaeth fechan ac yn trefnu'r lleoliad yn seiliedig ar y cynnig mwyaf economaidd fanteisiol o ystyried yr holl feini prawf perthnasol.

Er y gall cynlluniau peilot gynnwys rhai canlyniadau sy'n benodol i leoliad neu boblogaeth awdurdod contractio arbennig, byddai'r Comisiynydd yn annog lledaenu canlyniadau cynlluniau peilot o'r fath yn ehangach rhwng awdurdodau contractio er mwyn gallu rhannu dulliau gweithredu cyffredinol.

3.1.3. **Dethol**

Pan fo'r contract yn dod o dan ofynion llawn y Cyfarwyddbau, mae dwy adran glir yn y cymal dethol sy'n berthnasol i ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. I ddechrau, gellir eithrio tendrwr os yw un o'r seiliau yn Erthygl 57 o Gyfarwydddeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol (yn amodol ar y drefn sy'n adfer ei hun ('self-cleaning') a drafodir isod)

ac yn ail, gellir eithrio tendrwr am fethu â dangos meini prawf gallu neu adnoddau a ganiateir.

Mae egwyddorion caffael cyhoeddus wedi pwysleisio hefyd fod rhaid i awdurdodau contractio wahaniaethu'n glir rhwng meini prawf dethol a meini prawf dyfarnu wrth gynnal proses gaffael. Ni ddylai meini prawf 'dethol' megis gallu a phrofiad cyflenwyr gael eu hailadrodd yn y cymal 'dyfarnu'. Rhaid i fanylion llawn ynglŷn â sgorio meini prawf dethol (gan gynnwys y trothwyon pasio os defnyddir hwy) fod ar gael i gontractwyr ymlaen llaw yn yr hysbysiad contract neu ddogfennau'r contract.

Lle nad yw contract yn dod o dan y Cyfarwyddbau, ond ei fod yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol Cytuniad y GE o hyd, bydd gan awdurdod contractio fwy o hyblygrwydd ynglŷn â sut yr aiff ati i ddethol yn y lle cyntaf. Ond rhaid i ofynion o'r fath fod yn deg, yn dryloyw ac yn gymesur. Yn ogystal, rhaid i unrhyw ofynion cychwynnol sy'n eithrio contractwyr brofi eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol fel y mynegir yng nghyfraith achos adran 2.1.1.

Cyn belled ag y mae ystyriaethau iaith Gymraeg yn y cwestiwn felly, byddai'n arfer gorau i awdurdod contractio weithredu dull cyson o ddethol ar y cychwyn, os yw contract yn un sy'n dod o dan reolau'r UE neu beidio. Mae'n debygol y bydd awdurdod contractio am sicrhau bod contractwr yn gallu cyflawni'r gofyniad drwy gynnal cymal dethol cychwynnol cyn iddynt ymgymryd â'r broses hirach o asesu cynigion llawn.



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

Trafodir y rheswm perthnasol dros eithrio tendrwr o dan Erthygl 57 (am ddiffygion sylweddol neu barhaus) yn adran 2.2.2.a uchod. Gan mai disgresiwn sydd gan awdurdod contractio i eithrio tendrwr ar sail diffygion o'r fath (yn hytrach na bod rhwymedigaeth arno), mae'n bosibl y bydd awdurdodau contractio yn dymuno cytuno ar bolisi mewnol yn nodi'r ffactorau y dylid eu hasesu wrth ystyried a ddylid eithrio tendrwr ar sail methiant i gyflawni rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gorffennol. Ni ddylai'r polisi hwn geisio cyflwyno rhestr gyflawn o ffactorau oherwydd y mae'n angenrheidiol, fel rhan o ddisgresiwn yr awdurdod, fod pob achos yn cael ei ystyried ar sail ei ffeithiau ei hun ac y dylai tendrwr sy'n wynebu cael eu heithrio gael cyfle i ddarparu tystiolaeth bod y diffygion yn adfer eu hunain ('self-cleaning') yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (gweler mwy o wybodaeth am hyn yn adran 2.2.2.a uchod). Pa ddull bynnag a ddefnyddir, rhaid iddo fod yn deg ac yn gyson i bob tendrwr. Gallai cytuno ar bolisi canolog felly fod yn briodol cyn belled â'i fod yn caniatáu asesiad goddrychol.

Yn ail, gall awdurdod contractio ddethol tendrwr addas ar gyfer cymal nesaf y broses yn ôl gallu'r contractwr i gyflawni'r gofynion penodol. Yn aml ni fanylir ar ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg ar y pwynt hwn, neu os gwneir hynny, yr unig beth a geir yw cwestiwn yn gofyn i contractwyr gadarnhau a fyddant yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu gynllun iaith Gymraeg y corff penodol. Ni fydd y dull hwn yn ddigon i sicrhau gallu technegol y contractwr ar gyfer contract gwasanaeth cyhoeddus.

Gall awdurdodau contractio ystyried gallu technegol y contractwr yn ogystal â'u trefniadaeth, eu cymhwyster a phrofiad y staff a'u mesurau ar gyfer sicrhau ansawdd. Dylid archwilio gallu'r contractwr i gyflawni anghenion ar y pwynt hwn yn y tendr, a hynny mewn modd sy'n gymesur.

Er enghraifft, gallai awdurdod contractio ofyn i contractwr gyflwyno gwasanaeth rheoli cwynion. Gallai hyn olygu gwasanaeth dros y ffôn ac ar-lein. Dylai'r awdurdod contractio sicrhau ar y pwynt hwn yn y broses ddethol bod gan y contractwr y gallu technegol i gyflwyno dwy agwedd y contract drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i'r elfen ar-lein fod yn gyson ddwyieithog a bydd angen i'r hyn a gynigir o ran llinell gymorth fod yn gymesur â'r galw a ragwelir. Er enghraifft:

C: Disgrifiwch eich profiad blaenorol a/neu'r cyfleusterau technegol sydd gennych er mwyn darparu'r math o feddalwedd sy'n ddisgwyliedig yn y contract hwn mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, yn cynnwys y gallu i ddarparu nodweddion rhyngweithiol yn y ddwy iaith.

C: Rhowch fanylion ynglŷn â dulliau penodol o weithio neu'ch profiad yn y gorffennol o sicrhau bod gwasanaeth llinell gymorth dwyieithog ar gael i gwsmeriaid. Rhaid i'ch ymateb gyfeirio at yr angen disgwyliedig am wasanaeth Cymraeg a nodir yn y fanyleb er mwyn dangos bod modd cyflawni hyn yn briodol. Lle nad oes galw am y gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd, rhaid i'ch ymateb ddelio â sut y bydddech yn mynd ati i sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog di-dor o ansawdd yn cael ei gynnig pe byddai ar



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysadau cydymffurfio i gcontractwyr

gwsmer angen gwasanaeth yn Gymraeg.

C: Disgrifiwch eich profiad a/neu eich ymagwedd at hyrwyddo a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o'r math hwn yng Nghymru i sicrhau bod rhwymedigaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael eu diwallu a'u hannog.

Mae darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn un o ofynion craidd y contract hwn. Byddai ymateb sy'n methu â chyflwyno gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg o gwbl, neu'n methu ag ymateb i'r cwestiynau hyn o gwbl, yn golygu na chaiff cynnig y tendrwr ei ystyried ymhellach.

Mae'r cwestiynau hyn yn cynnig modd i dendrwyr ddangos y profiad blaenorol perthnasol sydd ganddynt, ond y maent hefyd yn cynnwys geiriad yn ymwneud â "dulliau gweithredu" er mwyn peidio ag eithrio yn annheg gcontractwyr newydd a allai gyflawni'r contract.

Efallai y bydd angen holi a fyddai contractwr yn defnyddio unrhyw isgcontractwyr i gyflawni unrhyw un o elfennau iaith Gymraeg y contract ac, os felly, sut y caiff galluedd yr isgcontractwyr hynny a'r camau er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd eu cynnal.

O dan Gyfarwyddeb y Cyfleustodau, mae'r rheolau ar gyfer y cymal dethol ychydig yn llai caeth. Fodd bynnag, pa feini prawf bynnag a ddefnyddir, rhaid iddynt fod "yn seiliedig ar

reolau a meini prawf gwrthrychol" a sefydlir cyn cychwyn ac sy'n cael eu cyhoeddi i dendrwyr³⁶.

3.1.4. **Gwerthuso**

Os yw contract yn dod o dan y Cyfarwyddebau neu beidio, dylai gwerthusiad o gcontract gwasanaethau cyhoeddus gynnwys asesiad o feini prawf ar wahân i bris yn unig er mwyn sicrhau bod modd cyflawni gofynion a sicrhau gwerth am arian.

Pan fo'r contract yn dod o dan y Cyfarwyddebau mae gwerthusiad tendrwyr ar sail y meini prawf mwyaf economaidd fanteisiol wedi ei gyfyngu i feini prawf derbyniol, yr adnabyddir hwy fel meini prawf dyfarnu. Mae'n bwysig bod meini prawf o'r fath yn berthnasol hefyd i gynnwys y contract.

Fodd bynnag, gan fod yr angen i gcontractwr gyflwyno gwasanaeth Gymraeg a Saesneg i'r cyhoedd yn rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n gydnaws â Chytuniad y GE, y mae yn ei hanfod yn gysylltiedig â chynnwys y contract. Yn ogystal, gellir cyfiawnhau cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg fel meini prawf dyfarnu (ac yn wir mae gwneud hynny yn hanfodol) cyn belled â bod meini prawf o'r fath wedi eu profi mewn modd priodol a chymesur.

Er enghraifft, ni fyddai'n briodol nac yn gymesur defnyddio maen prawf dyfarnu sy'n seiliedig ar sawl un o gyflenwyr y contractwr sy'n siarad Cymraeg a gofyniad mai dim ond siaradwyr Cymraeg y dylid eu recriwtio.

³⁶Erthygl 78 (1)



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

Ar y llaw arall, byddai maen prawf dyfarnu sy'n seiliedig ar allu'r contractwr i gyflwyno'r gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r graddau sy'n ofynnol yn y fanyleb yn briodol ac yn gymesur.

Dylid nodi na ddylai meini prawf dyfarnu fod yn gamwahaniaethol. Ni ddylai rhwymedigaethau iaith Gymraeg ei gwneud yn ofynnol bod contractwr yn dod o Gymru gan y byddai hyn yn gamwahaniaethol. Gallu'r contractwr i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg a'r Saesneg sy'n berthnasol i'r contract, nid o ble mae'n hanu.

Pe byddai contractwr yn cynnig cyflwyno hynny drwy isgcontractwyr yna ni fyddai'n briodol rhoi sgôr is iddynt, cyn belled ag y gallent ddangos dull cyson ac effeithiol o gyflwyno gwasanaeth a dangos bod y tendr yn dal i fod yn gost effeithiol.

Hefyd, ni ddylai meini prawf dyfarnu ailadrodd meini prawf a ddefnyddiwyd yn y cymal dethol na defnyddio gwybodaeth a gafwyd bryd hynny. Mae'r cymal dethol yn ymwneud â sefyllfa ariannol y tendrwr a'i allu technegol neu broffesiynol, tra bod rhaid i'r cymal gwerthuso (gan ddefnyddio'r meini prawf dyfarnu) ganolbwyntio ar ansawdd, nodweddion a phris cynigion y contractwr i gyflwyno'r contract penodol hwn.

Byddai'n ddefnyddiol parhau gyda'r enghraifft a ddefnyddiwyd ar gyfer y cymal dethol:

C: Disgrifiwch sut y byddech yn cyflwyno'r gwasanaeth hwn i sicrhau bod defnyddwyr sydd eisiau'r gwasanaeth yn y Gymraeg a'r rhai sydd eisiau'r gwasanaeth yn y Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Dylai eich ymateb ddisgrifio holl agweddau allweddol y gwasanaeth yn gwyno e.e. o'r alwad ffôn gychwynnol/ymholiad ar-lein i ddatrys cwynion gan gynnwys darparu gwybodaeth atodol. Dylai eich ymateb hefyd gyfeirio'n benodol at yr angen disgwyledig am wasanaethau iaith Gymraeg yn y contract hwn.

C: Eglurwch y cynllun neu'r ymgyrch y byddech yn ei defnyddio ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn monitro a hyrwyddo gallu defnyddwyr gwasanaeth i dderbyn gwasanaeth sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Rhaid rhoi gwybod i'r tendrwyr ymlaen llaw pa feini prawf dyfarnu fydd yn cael eu defnyddio. Os yw'r contract yn dod o dan y Cyfarwyddbau rhaid cynnwys y meini prawf (ac unrhyw is feini prawf) yn yr hysbysiad contract neu yn y dogfennau contract a chynnwys pwysoliadau perthynol ar gyfer bob un o'r meini prawf³⁷. Byddai hyn yn cynnwys rhaghysbysiad o'r cynllun marcio a fyddai'n cael ei ddefnyddio.

Er nad oes angen pwysoli ar gyfer contractau nad ydynt yn dod o dan y Cyfarwyddbau mae'n dal yn ofynnol, yn ôl egwyddorion Cytuniad y GE, i'r awdurdod contractio gynnal proses deg a thryloyw. Mae cyfraith achos hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd y gallu i fod yn ddiduedd wrth adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir³⁸. Mae'n

³⁷Gweler troednodyn 32 mewn perthynas â threfn pwysigrwydd ddisgynol

³⁸Achos C-324/98 Telaustria [2000] ECR I-10745



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

ddoeth felly bod arwydd o bwysigrwydd y meini prawf yn cael ei gynnwys, hyd yn oed lle nad ydynt yn dod o dan y Gyfarwyddeb.

Mae hyn yn bwysig hefyd er mwyn dangos bod y camau a gymerwyd o ran gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn briodol ac yn gymesur.

Rhaid i osod pwysoliadau perthnasol fod yn benderfyniad goddrychol gan yr awdurdod contractio, yn seiliedig ar bwysigrwydd yr holl ffactorau eraill sy'n effeithio ar y contract.

Gall gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg fod yn is faen prawf³⁹ mewn meysydd eraill (e.e. cyflwyno gwasanaeth a marchnata⁴⁰) neu gallant haeddu eu maen prawf eu hun.

Ar ôl sefydlu rhywfaint o allu iaith Gymraeg yn y cymal dethol, bydd yr awdurdod contractio yn asesu ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth Cymraeg ar gyfer y contract hwn. Wrth osod y pwysoliadau bydd angen i'r awdurdod contractio ystyried ffactorau megis pa mor ddibynnol fydd y contract hwn ar agweddau iaith Gymraeg a hyd a chwmpas y contract.

Er enghraifft, byddai contract ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu taflenni am grantiau i ardaloedd amaethyddol Cymru, yn cynnwys gwasanaeth cefnogol dilynol dros y ffôn, yn galw am sgiliau ysgrifennu dwyieithog ardderchog yn ogystal â sgiliau llafar dwyieithog da. Mae pwysoliad

meini prawf sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn debygol o fod yn uchel.

I'r gwrthwyneb, mae'n annhebygol y byddai angen meini prawf yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer contract 3 mis i ddarparu hyfforddiant TG i grwpiau cymunedol, lle nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg. Er y byddai'n angenrheidiol dangos y gellir diwallu gofynion Mesur y Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, Deddf 1993 yn ystod y cymal dethol, efallai na fyddai'n gymesur asesu'r maen prawf hwn ymhellach ar ei ben ei hun.

3.1.5. **Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg**

Rhaid i delerau'r contract fydd yn cael ei ddyfarnu grisialu'r holl ofynion a'r ymrwymadau perfformiad y bydd y contractwr yn eu cyflwyno. Dylai pwy bynnag sy'n ennill y tendr allu bodloni amodau'r contract o'r adeg y mae'r contract yn cychwyn.

Serch hynny, gall contract hefyd gynnwys atodlen sy'n ymgorffori i'r contract ymrwymadau penodol a wnaed gan dendrwr er mwyn eu trosi yn ymrwymadau contractiol gorfodol. Gall yr atodlen hon fod yn ddefnyddiol er mwyn ymgorffori cynigion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg (a chynigion eraill) a gyflwynwyd yn y tendr llwyddiannus. Bydd angen rhoi gwybod i dendrwr yn y fanyleb y gellir ymgorffori'r cynigion i'r contract yn y modd hwn.

Mae'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yn datgan:

³⁹Lle defnyddir is feini prawf mae cyfraith achos yn nodi bod rhaid cyhoeddi pwysoliadau perthynol yr is feini prawf hynny o flaen llaw hefyd.

⁴⁰Sylwer fodd bynnag, lle mae gofynion wedi eu rhannu dros nifer o feini prawf, rhaid i wahanol elfennau'r meini prawf gael eu sgorio o dan wahanol benawdau. Ni chaniateir sgorio'r un wybodaeth ddwywaith o dan wahanol benawdau.



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

“Caiff awdurdodau contractio bennu amodau arbennig sy'n ymwneud â pherfformiad y contract cyn belled â'u bod yn gysylltiedig â phwnc y contract... ac yn cael eu nodi yn y... dogfennau caffael”⁴¹.

Er mwyn bod yn gyson, ni ddylai amodau o'r fath fod yn wahaniaethol a rhaid iddynt fod yn gymesur. Fel yr eglurwyd yn adran 2.1 uchod, mae cyfraith achos wedi cadarnhau bod rhwymedigaethau iaith cenedlaethol, megis y rhai ym Mesur y Gymraeg a Deddf 1993, yn gyson â Chytuniad y GE os sicrhair eu bod yn cael eu defnyddio'n rhesymol.

Er enghraifft, ni fyddai'n rhesymol i amod mewn contract ei gwneud yn ofynnol i gontractwr gadw at gynllun iaith Gymraeg yr awdurdod contractio yn ei gyfanrwydd yn yr un modd ag y mae hynny'n ofynnol i'r awdurdod contractio. Gall cynlluniau o'r fath gynnwys materion yn ymwneud â pholisïau recriwtio mewnol, gwersi Cymraeg i staff ac ati. Ni fyddai'n gymesur clymu contractwyr i ymrwymïadau o'r fath.

Ond gall fod yn gymesur ei gwneud yn ofynnol i gontractwr llynu at elfennau'r cynllun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Efallai nad yw gofynion Mesur y Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, Deddf 1993 yn uniongyrchol berthnasol i lawer o gontractwyr ar hyn o bryd, felly dylid eu cynnwys yn y contract fel eu bod yn rhwymo'r contractwr.

Er mwyn sicrhau bod y broses yn dryloyw, dylai amodau'r contract hefyd fod ar gael i gontractwyr gyda'r fanyleb. Ceir enghreifftiau o amodau contract er mwyn ymdrin â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn Atodlen 5. Efallai y byddai awdurdod contractio yn dymuno dethol un neu ragor o'r rhain i'w defnyddio, yn dibynnu ar natur y contract a ddyfernir.

Lle mae'r angen i gynnig y gwasanaeth i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ofyniad craidd yn y contract, mae'n bwysig hefyd bod perfformiad yn cael ei fonitro. Bydd angen y wybodaeth hon ar yr awdurdod contractio er mwyn cadarnhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan ei gynllun iaith Gymraeg, Mesur y Gymraeg a Deddf 1993. Dylid ymgorffori rhwymedigaethau o'r fath felly i mewn i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y contract.

Ond unwaith eto bydd cwmplas a dulliau'r gwaith monitro yn dibynnu ar natur, cyfnod a chynnwys y contract. Gweler adran 3.1.1 uchod o ran y camau y gall awdurdod contractio eu cymryd i sefydlu amgylchiadau perthnasol i iaith mewn contractau penodol.

Ar gyfer contract tymor byr iawn lle na ragwelwyd y byddai llawer o angen am wasanaeth Cymraeg, mae'n bosibl y byddai'n ddigon i anfon holiadur i'r contractwr ar ôl cyfnod y contract yn gofyn a ofynnwyd am wasanaeth Cymraeg, ac os do, beth oedd ymateb y contractwr. Gallai addasiad o'r holiadur yn Atodlen 6 gynorthwyo yn hyn o beth.

⁴¹Erthygl 70



Rhan 3 – y Gymraeg yn y broses dendro

3.1. Cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y broses dendro

3.1.1. Adnabod y gofynion

3.1.2. Gosod manyleb

3.1.3. Dethol

3.1.4. Gwerthuso

3.1.5. Y contract – drafftio a monitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

3.2 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i contractwyr

Mae'n debygol y bydd angen mwy o fonitro cyfnodol yn ystod tymor contract hirach, neu contract lle'r oedd cyflwyno neu hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg yn rhan o'r fanyleb.

Dylai'r contract ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu diweddariad cyfnodol (misol, chwarterol neu efallai ddwywaith y flwyddyn yn dibynnu ar natur y contract) fel rhan o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, i roi gwybod i'r awdurdod contractio am lefel y defnydd o'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r contractwr hefyd ddisgrifio'n gryno y camau y maent wedi eu cymryd i ateb yr angen hwnnw a gall hefyd adrodd ar weithgareddau hyrwyddo gan gyfeirio at gynllun marchnata os yw'n berthnasol. Gellir ategu'r adroddiad gyda llenyddiaeth enghreifftiol os yw hyn yn berthnasol i'r contract.

I fod yn effeithiol mae angen i ofynion monitro fod yn eglur o'r cychwyn a galluogi'r contractwyr i gasglu'r wybodaeth yn gymharol hawdd. Nid yw'n fwriad rhoi gormod o faich ar gontractwyr nac awdurdodau contractio, ond yn hytrach, dylid sicrhau bod ffordd addas o wirio fod contractwyr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Os dengys hyn fethiant ar ran y contractwr i ddiwallu neu i fonitro gofynion o'r fath, efallai mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn i ddechrau fyddai cynnal cyfarfod rhwng y contractwr a swyddogion caffael a swyddog iaith Gymraeg yr awdurdod contractio.

Mae enghreifftiau o gymalau y gellid eu cynnwys mewn contract er mwyn cynorthwyo gyda gwaith monitro wedi eu cynnwys yn Atodlen 5. Am fwy o wybodaeth am ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol gweler <http://prp.wales.gov.uk/planners/general/contractmanagement/keyperformanceindicators/>

3.2.

Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i ambell gontractwr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb a lunnir yn uniongyrchol gydag awdurdod cyhoeddus (a48). Bydd hyn yn gwneud rhai safonau yn gymwys i'r contractwr yn uniongyrchol.

Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y gofyniad i'r contractwr gydymffurfio â'r safon berthnasol yr un fath â'r gofyniad i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon, neu ddim yn fwy na'r gofyniad hwnnw. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor uchod mai dim ond â'r cyfryw safonau/ ofynion cynllun sy'n berthnasol i ddarpariaeth y gwasanaeth o fewn y contract y caiff awdurdodau contractio ofyn i gontractwyr gydymffurfio.



Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau

- 4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol
- 4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)
- 4.1.2. Gwasanaethau gofal
- 4.1.3. Bilio a gwasanaethau refeniw
- 4.2. Problemau a wynebir
- 4.2.1. Cytundebau fframwaith
- 4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol
- 4.3. Meysydd anodd eu goresgyn
- 4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol
- 4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli
- 4.4. Canllaw arfer gorau

4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol

Mae'r adran ganlynol yn trafod rhai o'r contractau allweddol sy'n mynd i'r afael mewn dulliau amrywiol ag ymgorffori gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r enghreifftiau yn amlygu'n fyr y cymalau sy'n arbennig o berthnasol yn y broses gaffael ar gyfer gwahanol fathau o contractau. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a dylai awdurdodau contractio drin prosesau caffael i gyd yn oddrychol ar sail eu hanghenion.

4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)

Lle mae angen meddalwedd neu galedwedd ar awdurdod contractio, naill ai ar gyfer rhyngweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd neu er mwyn i'r awdurdod contractio allu cyflwyno ei wasanaethau i'r cyhoedd, bydd angen iddo allu cyflwyno gwasanaethau yn gyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Er enghraifft, gall hyn gynnwys meddalwedd i ymdrin â bilio, pleidleisio neu greu gwefan.

Wrth nodi gofynion ar gyfer manyleb TG, mae nifer y defnyddwyr Cymraeg o'i gymharu â nifer y defnyddwyr Saesneg yn amherthnasol i raddau helaeth. Yn hytrach, bydd y fanyleb yn canolbwyntio ar nodweddion technolegol gyda'r gofyniad bod rhaid i'r feddalwedd allu ymdrin â systemau a chofnodion data dwyieithog. Dylai manylebau ar gyfer gwefannau a fydd yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd nodi'r angen i wefannau fod yn gwbl ddwyieithog.

Byddai'r cymal dethol yn cynnwys gofyniad gorfodol yn

nodi y bydd gofyn gallu defnyddio'r systemau/meddalwedd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Gellir asesu nodweddion ychwanegol yn y cymal gwerthuso, megis y gallu i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar bob un o dudalennau'r wefan, neu ymarferoldeb meddalwedd a all drosi nodiadau neu gofnodion data i'r naill iaith neu'r llall gan alluogi staff y ddwy iaith i ymdrin â galwadau.

Byddai amodau'r contract yn cynnwys y fanyleb hon ac yn llunio asesiad ohoni i mewn i'r cymal profi derbynioldeb. Dylid monitro perfformiad yn barhaus gan gynnwys ymateb y defnyddiwr i gydraddoldeb y gwasanaeth. Gall monitro nifer y defnyddwyr yn y ddwy iaith hefyd fod yn ddefnyddiol i awdurdodau contractio o safbwynt casglu ystadegau i'w defnyddio yn y dyfodol.

4.1.2. Gwasanaethau gofal

Wrth sefydlu gofynion ar gyfer gwasanaethau gofal bydd yn bwysig cael gwybodaeth am ofynion iaith posibl yn y sector. Yn ddelfrydol dylai'r wybodaeth a gesglir ddangos niferoedd presennol y siaradwyr Cymraeg ac amcangyfrif o newidiadau yn y nifer dros gyfnod blaenorol er mwyn ceisio sefydlu amrywiadau disgwylidig ond er mwyn adnabod hefyd ddibynadwyedd data o'r fath fel y trafodwyd yn adran 3.1.1. Gallai cysylltu â swyddog iaith Gymraeg yr awdurdod contractio fod o gymorth.

Dylai'r fanyleb ymwneud â defnydd presennol a disgwylidig o'r fath a chynnwys gofyniad i gontractwyr fonitro a



Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau

- 4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol
 - 4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)
 - 4.1.2. Gwasanaethau gofal
 - 4.1.3. Bilio a gwasanaethau refeniw
- 4.2. Problemau a wynebir
 - 4.2.1. Cytundebau fframwaith
 - 4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol
- 4.3. Meysydd anodd eu goresgyn
 - 4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol
 - 4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli
- 4.4. Canllaw arfer gorau

hyrwyddo'r dewis Cymraeg er mwyn darganfod a yw ffigurau'n newid ar ôl cynyddu ymwybyddiaeth.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cymal dethol sicrhau y gall contractwyr o leiaf ddiwallu rhwymedigaethau Mesur y Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, Deddf 1993 ac yn fwy penodol y gallant ddarparu gwasanaeth cyfartal a di-dor i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y ddwy iaith. Byddai hyn yn galw am wybodaeth ynglŷn â gallu darparwyr gofal i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg ac asesu gallu'r contractwr i ddarparu llenyddiaeth ddwyieithog.

Byddai'r cymal gwerthuso yn asesu cynigion perfformiad y contractwr er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gwasanaeth dwyieithog a sut y caiff y gwasanaeth yn y naill iaith neu'r llall ei ddarparu yn unol â'r contract.

Byddai amodau contract yn cynnwys rhwymedigaethau i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg a Deddf 1993, i hysbysu'r awdurdod contractio o'r nifer sy'n defnyddio ac yn ymateb i wasanaethau gofal yn Gymraeg, ac yn cynnwys amserlen ar gyfer cydymffurfio â chynigion penodol tendrwr.

4.1.3. **Bilio a gwasanaethau refeniw**

Gall contract o'r natur hwn gynnwys cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth ynghylch bilio, derbyn taliadau ac ymdrin ag ymholiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai elfen feddalwedd ac elfen llinell gymorth i'r contract.

Dylai elfen feddalwedd y contract ymdrin â'r materion perthnasol a godwyd yn adran 4.1.1. uchod (sy'n ymwneud â chontractau TG).

O ran y llinell gymorth, dylai'r awdurdod contractio geisio pennu'r angen disgwylidig neu bosibl am ddarpariaeth Gymraeg er mwyn ei gynnwys yn y fanyleb.

Byddai'r cymal dethol yn asesu pa un a oes gan y contractwr y gallu/profiad i ymgymryd â chontract gyda gofyniad o'r fath.

Bydd y cymal gwerthuso yn allweddol i gontract o'r fath er mwyn deall cynigion y contractwr i ymdrin â'r broses yn y ddwy iaith yn gyfartal o'r dechrau i'r diwedd e.e. sefydlu dewis iaith y defnyddwyr, cyhoeddi anfonebau dibynadwy yn y dewis iaith, ymdrin ag ymholiadau yn y dewis iaith o'r cychwyn yn ogystal â chysondeb gyda chyfathrebu dilynol.

Mae'n debyg y bydd pwyslais cryf ar ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr hyrwyddo'r ffaith bod gwasanaeth dwyieithog ar gael ac i fonitro'r anghenion.

4.2. **Problemau a wynebir**

Dau faes sydd yn debygol o godi cwestiynau anodd yw cytundebau fframwaith ac ymarferion caffael cydlynol.

4.2.1. **Cytundebau fframwaith**

Mae gwaith caffael wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer



Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau

4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol

4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)

4.1.2. Gwasanaethau gofal

4.1.3. Bilio a gwasanaethau referniw

4.2. Problemau a wynebir

4.2.1. Cytundebau fframwaith

4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol

4.3. Meysydd anodd eu goresgyn

4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol

4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli

4.4. Canllaw arfer gorau

o gytundebau fframwaith rhwng mwy nag un contractwr gyda gwasanaethau yn cael eu sefydlu 'yn ôl y gofyn'. Gall rhai cytundebau o'r fath fod yn rhai Cymru gyfan ac eraill yn ymwneud â'r DU yn ei chyfanrwydd er mwyn gwneud y mwyaf o'r grym prynu cyfunol.

Mae'r prosiect peilot y cyfeiriwyd ato yn adran 3.1.2 uchod yn amlygu un dull lle gall cytundebau fframwaith gynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn contract yn ôl y gofyn. Yn aml mae cytundebau fframwaith yn cael eu categoreiddio yn ôl gwahanol fathau o wasanaeth/nwyddau y gellir cynnal cystadleuaeth fach rhyngddynt. Gallai cynnwys categori ar gyfer y Gymraeg fod yn gymorth i awdurdodau contractio gynnal cystadleuaethau bychain rhwng contractwyr a all fodloni'r rhwymedigaeth gyfreithiol, lle canfyddir defnyddiwr sydd angen gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Lle caiff fframweithiau o'r fath eu caffael ar lefel genedlaethol, dylai trafodaeth gynnar gyda'r corff pwrcasu canolog fod o fudd er mwyn sicrhau bod gofynion o'r fath yn cael eu cynnwys yn y fanyleb. Byddai corff pwrcasu canolog yn debygol o sicrhau y gallai'r awdurdodau contractio a fyddai'n defnyddio fframweithiau o'r fath fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol drwy wneud hynny. Gweler adran 4.3.2 isod sy'n trafod cytundebau fframwaith sydd eisoes yn bod.

Mae'n hanfodol hefyd i ddeall yr opsiynau a gynigir gan gytundeb fframwaith er mwyn sicrhau bod cystadleuaeth fechan yn ymarfer yr opsiynau hynny i alluogi gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Er enghraifft, roedd Awdurdod A yn caffael caledwedd TG newydd drwy Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru. O dan y cytundeb fframwaith yr oedd GCC wedi ei gaffael, roedd opsiwn gan Awdurdod A i'w gwneud yn ofynnol i bob cyfrifiadur newydd oedd yn cael ei gaffael i staff ddod gyda meddalwedd cyfrwng Cymraeg wedi ei lwytho arno yn barod. Ni osododd Awdurdod A yr amod hwnnw o fewn ei ofynion caffael, yn unol â'r fframwaith, felly ni roddwyd y feddalwedd ar y cyfrifiaduron.

4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol

Mae ymarferiad caffael cydweithredol yn broses lle mae galw am nwyddau neu wasanaethau penodol dros nifer o sefydliadau yn cael ei gyfuno a chynhelir ymarfer tendr gan un prif awdurdod (neu gorff pwrcasu canolog) ar ran y sefydliadau hynny.

Er enghraifft, ystyrier proses gaffael gydweithredol ar gyfer meddalwedd TG a gwasanaethau cefnogol i bob sefydliad addysg mewn rhanbarth sy'n cynnwys sawl sir ac yn effeithio ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae proses o'r fath yn golygu y bydd pob awdurdod contractio yn creu contract uniongyrchol gyda'r contractwr buddugol yn y pen draw, ond bod ganddynt y fantais o gyfuno'r galw.



Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau

4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol

4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)

4.1.2. Gwasanaethau gofal

4.1.3. Bilio a gwasanaethau refeniw

4.2. Problemau a wynebir

4.2.1. Cytundebau fframwaith

4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol

4.3. Meysydd anodd eu goresgyn

4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol

4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli

4.4. Canllaw arfer gorau

Fel rheol caiff y broses ei harwain gan un prif awdurdod er mwyn canoli'r caffael. Wrth sefydlu'r angen am ddarpariaeth Gymraeg efallai y bydd gan y prif awdurdod lawer llai o ofynion na'r awdurdodau contractio eraill sy'n rhan o'r broses. Ond fel yr eglurwyd yn adran 4.2.1 uchod, rhaid i broses sy'n cael ei rhedeg gan gorff prynu canolog fodloni anghenion pob awdurdod contractio sy'n mynd i elwa maes o law er mwyn iddi fod yn broses gaffael ddilys.

Gellir rhannu contractau o'r fath yn 'ardaloedd' (yn hytrach na 'lotiau') gan amlygu amrywiadau ar gyfer pob ardal. Yna gellir gofyn i gontractwyr gynnig sut y byddant yn ymdrin ag amrywiadau yn yr ardaloedd hyn er mwyn bodloni holl ofynion yr awdurdodau contractio dan sylw. Dewis arall fyddai gofyn cwestiwn mwy generig yn esbonio'r amrywiadau posibl yn yr angen am ddarpariaeth Gymraeg, a gofyn am gynigion ynglŷn â sut y byddai'r contractwr yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

4.3. Meysydd anodd eu goresgyn

4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol

Gellir wynebu anawsterau penodol gyda chontractau ar gyfer gwasanaethau arbenigol neilltuoel lle nad oes contractwyr gyda chyfleusterau Cymraeg ar gael, neu lle maent yn brin iawn.

Er enghraifft, contract ar gyfer gwasanaethau meddygol lle mae profiad yn y gorffennol wedi dangos prinder

meddygon cymwysedig a phrofiadol yn gyffredinol. Yn aml nid meddygon sy'n hanu o'r DU a ddarperir o dan y cytundeb ac nid Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r fanyleb yn cynnwys angen i gyrraedd lefel benodol o gymhwysedd yn y Saesneg.

Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen i awdurdod contractio asesu beth sy'n briodol i'w gynnwys yn y fanyleb er mwyn ymdrin â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Er nad yw hon yn ymagwedd gwbl gyfartal, gallai hyn gynnwys gofyniad i'r contractwr allu talu eu hunain am ddefnyddio cyfieithwyr i gynorthwyo gyda gofynion o'r fath. Dewis arall yw y gallai'r awdurdod contractio ei hystyried yn briodol cynnig eu bod yn talu eu hunain am ddefnyddio cyfieithwyr. Bydd penderfyniad mor oddrychol yn dibynnu ar faterion megis lefel ddisgwyliedig yr anghenion iaith Gymraeg, hyd y contract a sut y bydd yr endid contractio yn cael ei strwythuro (e.e. contractau gyda meddygon unigol neu gydag endid canolog sy'n is-contractio wedyn i feddygon).

4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli

Mae'n bosibl nad yw contractau hirdymor sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sydd â chyfnod sylweddol i fynd eto, wrth edrych yn ôl, yn ymdrin yn ddigonol â gofynion y contractwr sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Gall contractau o'r fath gyfeirio at rwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn y contract, ond dim rhwymedigaethau pellach, neu mae'n bosibl na fydd yn dweud dim o gwbl am faterion o'r fath.



Rhan 4 – Meysydd sy'n peri problemau a chanllaw arfer gorau

4.1. Enghreifftiau o contractau allweddol

4.1.1. Technoleg gwybodaeth (TG)

4.1.2. Gwasanaethau gofal

4.1.3. Bilio a gwasanaethau refeniw

4.2. Problemau a wynebwr

4.2.1. Cytundebau fframwaith

4.2.2. Ymarferiadau caffael cydweithredol

4.3. Meysydd anodd eu goresgyn

4.3.1. Prinder gwasanaethau arbenigol

4.3.2. Contractau hirdymor sydd eisoes yn bodoli

4.4. Canllaw arfer gorau

Fel arfer gorau, mae'n bosibl y dylai awdurdodau contractio adolygu pob contract gwasanaeth cyhoeddus cyfredol o'r math gyda'r bwriad o ddod o hyd i delerau a allai fod yn fodd o gynnal trafodaeth gyda'r contractwr ynglŷn â darparu gwasanaeth yn y Gymraeg.

Os nad yw contract yn crybwyll anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg, mae'n annhebygol y bydd yn dderbyniol cyflwyno gofynion newydd o ran darparu gwasanaeth cyn i gyfnod y contract ddod i ben. Fodd bynnag, mae mwyafrif y contractwyr yn debygol o fod yn barod i weithio gyda'r awdurdod contractio i fonitro a gwella gwasanaethau dwyieithog lle mae hynny'n bosibl. Gallai gwrthod cynnal deialog roi'r awdurdod contractio mewn sefyllfa lle mae'n torri ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg a Deddf 1993, gan olygu y dylai asesu a yw'n bosibl/angenrheidiol dirwyn y contract i ben yn gynnar.

Os yw'r contract presennol yn gytundeb fframwaith tymor hir sy'n cwmpasu'r DU gyfan gyda nifer o flynyddoedd ar ôl o hyd nad yw'n sôn dim am anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg, mae'n bosibl y byddai'r awdurdod contractio'n dymuno ymchwilio i gytundebau fframwaith eraill a allai fod ar waith, sydd wedi eu caffael gan sefydliadau pwrcasu canolog eraill sydd yn cynnwys anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg. Gallai'r cytundebau hyn fod yn ddefnyddiol os cawsant eu caffael gyda chwmpas digonol (yn yr hysbysiad contract a'r broses dendro) er mwyn caniatáu i'r awdurdod contractio hwnnw ddod yn rhan ohono.

4.4.

Canllaw arfer gorau

Fel y sonnir yn y cyngor hwn, cynhwysir rhai enghreifftiau o ddogfennau caffael a modelau o delerau ac amodau contract ar gyfer ymgorffori gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg i'r broses dendro. Mae'r rhain yn enghreifftiau o arfer gorau er gwybodaeth ac arweiniad i swyddogion caffael.

Nid yw defnyddio cymalau a dogfennau o'r fath yn orfodol; mae'n bosibl y bydd awdurdodau contractio yn dymuno datblygu eu fersiynau eu hunain wedi eu teilwra i'r dogfennau caffael sydd ganddynt eisoes. Fodd bynnag, y mae'n bwysig bod dogfennau sydd wedi'u teilwra fel hyn yn bodloni egwyddorion ac argymhellion y ddogfen cyngor hon er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau contractio yn bodloni'r ymrwymadau a drafodir yn y ddogfen hon. Efallai fod yr enghreifftiau a ddarperir yn gyfyngedig eu defnydd hefyd ac mae'n bosibl y bydd angen eu haddasu er mwyn adlewyrchu prosesau caffael penodol y defnyddir hwy ar eu cyfer. Dylai awdurdodau contractio wneud asesiad goddrychol i weld a oes angen unrhyw newidiadau ar gyfer pob contract sy'n cael ei gaffael. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau contractio'n dymuno ceisio arweiniad pellach gan Gwerth Cymru neu gan gynghorwyr cyfreithiol os bydd contractau yn arbennig o gymhleth.

I gael rhagor o gyfarwyddyd arfer gorau ar y broses gaffael yn gyffredinol, gweler Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru yn <http://prp.wales.gov.uk/>



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1 - Opiniwn cyfreithiol ar gydymffurfio â rhwymedigaethau caffael: Opiniwn

Gofynnir i mi roi cyngor ar rai materion sydd yn codi mewn perthynas â'r ddogfen cyngor a baratowyd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ar rwymedigaethau caffael sefydliadau cyhoeddus wrth iddynt contractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae'r ddogfen cyngor wedi cynghori yn benodol ar y berthynas rhwng y rhwymedigaethau hyn a'r hyn sydd yn ofynnol o sefydliadau cyhoeddus o dan Fesur y Gymraeg a Deddf 1993 pan fyddant yn gorfod paratoi ac ymddwyn yn unol â safonau iaith Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg (fel y bo'n berthnasol).

Nid fy mwriad yn yr opiniwn hwn yw ailadrodd dadansoddiad y ddogfen cyngor o'r fframwaith cyfreithiol. Yr wyf yn cymeradwyo'r drafodaeth glir honno. Yn hytrach, fy mwriad yw ateb tri chwestiwn penodol sydd yn codi o'r arweiniad ac y dylid eu trafod ymhellach.

Cwestiwn 1: A all awdurdodau sydd â chynlluniau iaith Gymraeg, neu lle mae hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig â safonau iaith Gymraeg mewn grym, gynnwys ymrwymadau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ym mhob un contract sy'n ymwneud â darparu "gwasanaethu cyhoeddus" yng Nghymru? Yn wir, onid oes gorfodaeth arnynt i wneud hynny?

1. Ni fyddai'n synhwyrol i awdurdod contractio gynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg mewn contract ar y sail bod gofyn iddo gydymffurfio â safonau iaith Gymraeg neu fod ganddo gynllun iaith Gymraeg. Nid dyna'r man cychwyn cywir. Fel

yr eglurir yn y ddogfen cyngor, bydd gweithred sydd â'r effaith o ymyrryd ag un neu fwy o ryddidau sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd (er enghraifft, y rhyddid i ddarparu gwasanaethau) yn anghyfreithlon os na ellir ei chyfiawnhau ar y sail bod yr ymyrraeth yn un gymesur â'r hyn sydd yn angenrheidiol am reswm tra phwysig er budd y cyhoedd. Er enghraifft, yn achos Rüffert⁴², achos caffael a ddaeth gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop, penderfynwyd bod deddfwriaeth genedlaethol yn groes i Gytuniad y Gymuned Ewropeaidd os ydyw'n peri i gwmnïau o'r tu allan i'r Aelod Wladwriaeth dan sylw golli eu mantais gystadleuol. Fodd bynnag, yn yr achos hwnnw, ni ellid cyfiawnhau'r ddeddfwriaeth fel un a oedd wedi ei basio am "reswm tra phwysig er budd y cyhoedd".

Ar y llaw arall, yn achos UTECA⁴³ (gweler adran 2.1.4 o'r brif ddogfen), cyfeiriodd Llys Cyfiawnder Ewrop (ym mharagraff 27) at rai o'i benderfyniadau yn y gorffennol lle yr oedd wedi derbyn bod diogelu a hyrwyddo un neu fwy o ieithoedd swyddogol yr Aelod Wladwriaeth yn enghraifft o "reswm tra phwysig": Achos C-379/98 Groener [1989] ECR 3967, paragraff 19; United Pan-Europe Communications Belgium and Others, paragraff 43.

2. Yn fy marn i, mae statws yr iaith Gymraeg yn cyfateb â statws yr ieithoedd swyddogol hynny y cyfeirir atynt yn achos UTECA. Mae gan Sbaen gyfan un iaith genedlaethol, Sbaeneg, ond o'r pum iaith sydd â statws swyddogol o fewn Sbaen, mae pedair ohonynt yn ieithoedd sydd â statws swyddogol mewn tiriogaethau penodol o'r Aelod Wladwriaeth yn unig. Yn yr un modd, ers deddfu Mesur y Gymraeg, mae Cymraeg wedi bod yn un o ieithoedd swyddogol Cymru, rhan o Aelod Wladwriaeth ehangach y Deyrnas Unedig.

⁴²Achos C-346/06 Dirk Rüffert v Land Niedersachsen 3 Ebrill 2008

⁴³Achos C-222/07 UTECA v. Administración General del Estado (Llys Cyfiawnder Ewrop 5 Mawrth 2009)



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

3. Mae'r angen i sicrhau bod mesurau sy'n diogelu a hyrwyddo yn gymesur (hynny yw, nid yn mynd ymhellach na'r hyn sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r nod) yn perthyn yn agos i ddyletswydd sefydliadau cyhoeddus i baratoi cynllun iaith Gymraeg sydd yn trin Cymraeg a Saesneg yn gyfartal â'i gilydd "cyn belled ag y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" [adran 5(2), Deddf yr Iaith Gymraeg 1993]. Gwelir yr un pwyslais ar gymesuredd yn y broses o wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi asesu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn "afresymol neu'n anghymesur" [adran 56(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011]. Effaith cymesuredd fel egwyddor yw y gallai awdurdod contractio gael ei herio yn y llys pe bai'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ddiwahân mewn meini prawf ar gyfer gwobrwyo contract heb ddadansoddiad trylwyr yn gyntaf o'r hyn sy'n gymesur â'r nod tra phwysig o ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg. Er enghraifft, pe bai awdurdod lleol Y yn mynd allan i dendro ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gellid dadlau yn gryf y byddai'n anghymesur mynnu bod perchenogion y cwmni gofal yn siarad Cymraeg, yn hytrach na bodloni ar fynnu y byddai siaradwr Cymraeg ar ddyletswydd yn y cartref drwy'r amser. Gellid dadlau'n gryf y byddai'r ail amod yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r rhai sy'n ei siarad yn cael eu trin gydag urddas a pharch drwy gydol oes y contract, ond ymddengys y byddai'n mynd yn rhy bell i fynnu bod y rhai nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r defnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn gallu ei siarad hi hefyd.

4. Mae'n glir o'r drafodaeth hon mai un o'r seiliau mwyaf cadarn (os nad y mwyaf cadarn) ar gyfer dangos cymesuredd gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yw'r galw ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn fy marn i, cyn i bob awdurdod contractio sydd â safon neu gynllun iaith fynd allan i dendro ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, byddai'n arfer da i ddrafftio dogfen fer yn egluro pam yr ystyrir bod unrhyw ofynion y bwriedir eu cynnwys yn angenrheidiol. Gallai hyn gyfeirio at ddata o'r Cyfrifiad neu ddata demograffig neu ymchwil arall sydd yn dangos bod galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Yn yr un modd, os yw'r awdurdod contractio o'r farn nad yw cynnwys gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn angenrheidiol, byddai hefyd yn arfer da trafod y rhesymau a'r sail dystiolaethol dros benderfyniad o'r fath mewn penderfyniad ysgrifenedig byr. Eto i gyd, mae'n anodd dychmygu awdurdod contractio sydd â safon neu gynllun iaith yn mynd allan i dendro am gontractau 'gwasanaeth cyhoeddus' heb ddarparu o gwbl ar gyfer y Gymraeg. Hyd yn oed yn yr ardaloedd mwyaf Saesneg eu hiaith yng Nghymru, fe fydd lleiafrif o ddefnyddwyr y byddai'n well ganddynt dderbyn y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid wyf yn ymwybodol bod y lleiafrif hwn mor fychan mewn rhai ardaloedd yng Nghymru fel y gellir ei anwybyddu. Ar ben hynny, pe bai awdurdod o'r farn fod y galw am wasanaethau Cymraeg yn ei ardal mor isel fel nad ydyw'n gymesur gofyn unrhyw beth o gwbl o gontractwyr o safbwynt y Gymraeg, ymddengys y byddai strategaeth o'r fath yn anghyson â safon neu gynllun iaith Gymraeg a fydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn hybu'r ddyletswydd statudol o "hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg" (Adran 3 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

6. Oherwydd hynny, pe bai awdurdod contractio yn ystyried mynd allan i dendro ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd heb



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

ofyn unrhyw beth gan gcontractwyr o safbwynt y Gymraeg, dylai yn gyntaf ofyn i'r Comisiynydd a yw hyn yn gyson â'i rwymedigaethau o dan y safon neu'r cynllun iaith. Gan y bydd y sefyllfa hon yn codi ran amlaf pan fo'r awdurdod contractio o'r farn bod y galw am wasanaethau Cymraeg yn isel, cyfrifoldeb y Comisiynydd fydd hi bryd hynny i gynghori'r awdurdod ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn gymesur yn yr amgylchiadau er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Nid oes un ateb cywir wrth wneud penderfyniadau o'r fath, ond efallai y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno cynghori'r awdurdod contractio, os yw'r galw am wasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd yn isel neu'n absennol, y dylai ddangos y parodrwydd a'r gallu i fonitro'r galw am wasanaethau Cymraeg drwy gydol oes y contract, ac i gael strategaeth ar gyfer ymateb i gynnydd yn y galw pe bai hynny'n digwydd. Yn fy marn i, byddai peidio â gwneud o leiaf hynny yn groes i'r dyletswyddau sydd ar yr awdurdod contractio o dan Fesur y Gymraeg a Deddf 1993 i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal â'i gilydd mewn busnes cyhoeddus.

Cwestiwn 2: Wrth asesu'r hyn sy'n 'gymesur' i'w ofyn gan gcontractwyr o safbwynt yr iaith Gymraeg, a yw hyn wedi ei gyfyngu i'r galw ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth, neu a all yr awdurdod contractio fynd ymhellach a mynnu bod contractwyr yn cynnig strategaeth ar gyfer cynyddu'r galw yn ystod oes y contract?

7. Mae dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn achos UTECA o gymorth. Cadarnhaodd y llys ddilysrwydd mesurau sydd â'r nod o "ddiogelu a hyrwyddo" (fy mhswylais i) un neu fwy o ieithoedd swyddogol Aelod Wladwriaeth. Mae hyn yn gyson â Chytuniad y Gymuned Ewropeaidd

sy'n nodi yn Erthygl 151(4) y bydd y Gymuned "yn ystyried agweddau diwylliannol wrth weithredu o dan ofynion eraill y Cytuniad hwn, yn arbennig er mwyn parchu a hyrwyddo amrywiaeth ei diwylliannau". Yn yr un modd, un o egwyddorion craidd Mesur y Gymraeg yw y dylai'r Comisiynydd weithredu mewn modd sy'n "hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg", yn cynnwys wrth fonitro cydymffurfiaid â safonau iaith Gymraeg ac wrth arolygu cynlluniau iaith Gymraeg.

8. Dengys hyn nad oes yn rhaid i ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg gael eu cyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol i gadw'r sefyllfa fel ag y mae. Mae'n ddilys mynd ymhellach na hyn a gofyn i gcontractwyr gynnig strategaethau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dal yn rhaid i'r awdurdod contractio sicrhau nad yw'n mynd ymhellach nag sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r nod o "hybu" yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod hyn yn anochel yn ymwneud â phenderfyniadau disgresiynol anodd ynglŷn â sut i gloriannu ystyriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd (y rhyddid i ddarparu gwasanaethau ar un llaw, yr angen i hybu'r iaith Gymraeg ar y llaw arall), bydd y llysoedd yn gyffredinol yn amharod i ymyrryd os nad yw'r dyfarniad yn amlwg yn afresymol. Yn amlwg, pe bai awdurdod contractio yn gosod targedau ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg yn ystod oes y contract sydd, o unrhyw safbwynt rhesymol, yn afrealistig o uchelgeisiol neu'n rhy feichus, mae'n debygol y byddai'r llysoedd yn ystyried y mesur yn un anghymesur. Ond os na wneir hynny, ymddengys fod gan yr awdurdod contractio gryn ryddid i ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth benderfynu beth sydd yn angenrheidiol i hybu'r iaith Gymraeg.



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

9. O ganlyniad, er bod seilio gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg ar alw defnyddwyr yn un ffordd gadarn o sicrhau eu bod yn gymesur, nid dyma'r unig ffordd o wneud hyn. Mae'r fframwaith cyfreithiol yn galluogi awdurdodau contractio i fod yn fwy uchelgeisiol tra'n cadw ar yr un pryd o fewn yr hyn sy'n dderbyniol yn ôl yr egwyddor greiddiol: cymesuredd.

Cwestiwn 3: Pe bai'r Gymraeg yn cael ei chydabod fel un o ieithoedd swyddogol yr UE, beth fyddai effaith hyn ar brosesau caffael yng Nghymru (y tu hwnt i'r gallu i gyhoeddi dogfennau caffael yn y Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE)?

10. Pe bai'r Gymraeg yn cael ei chydabod fel un o ieithoedd swyddogol yr UE, byddai'n rhoi sail ychwanegol ar gyfer dadlau bod diogelu a hybu'r Gymraeg yn rhan bwysig o hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yn yr Undeb yn unol ag Erthygl 151(4) Cytuniad y Gymuned Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid yw'r fath statws swyddogol ar lefel yr UE yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cymesuredd gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y meini prawf ar gyfer gwobrwyo contractau gwasanaethau cyhoeddus. Fel y gwna UTECA yn glir, y mae statws swyddogol ar lefel yr Aelod Wladwriaeth yn ddigonol.

11. O safbwynt caffael cyhoeddus, felly, arwyddocâd statws swyddogol ar lefel yr UE fyddai atgyfnerthu dilystrwydd mesurau hyrwyddol sydd eisoes yn ddilys yn fy marn i, yn hytrach na dilysu am y tro cyntaf fesurau nad oedd gynt yn ddilys. Yn y cyd-destun hwn, newid ffurfiol i gyfundrefn OJEU (y Cyfnodolyn) fyddai hyn yn bennaf, yn hytrach na newid o sylwedd ym maes caffael, ond yn

amalg nid yw hynny'n lleihau arwyddocâd ehangach a symbolaeth datblygiad o'r fath o safbwyntiau eraill.

Casgliad

12. Yr wyf yn gobeithio bod yr opiniwn hwn ar faterion atodol yn ychwanegu yn ddefnyddiol at y prif Gyngor manwl a chynhwysfawr.

O reidrwydd, y mae'r cyngor hwn wedi canolbwyntio ar yr egwyddorion.

Gwion Lewis
Landmark Chambers Llundain
1 Ebrill 2015



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 2 – Cymorth ymarferol

Rhestr wirio swyddog caffael – Anghenion Iaith Gymraeg

☐	Manyleb wedi ei gosod gan ddefnyddio: • Tystiolaeth o anghenion iaith y contract (cyfeirier at yr holiadur pro forma lle mae contract eisoes yn bod) • Cyswllt gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod polisi a thueddiadau presennol yn cael eu corffori yn y fanyleb. • [Cyfeiriad at unrhyw arfer gorau arall yn y ddogfen gyfarwyddyd ganolog]
☐	Cyfarwyddiadau i dendrwy'r wedi eu paratoi (yn cynnwys paragraff ynglŷn â rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg a chroesgyfeirio at adrannau perthnasol o'r fanyleb, meini prawf dethol/dyfarnu ac amodau'r contract).
☐	Meini Prawf Dethol wedi eu sefydlu – adran ar fethodoleg a fformiwla ychwanegol gyda chrynodeb o sut y gweithredir hwy ac ati. Asesu a dynodi pa feini prawf sy'n cynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ynteu a oes angen meini prawf ar wahân (yn amodol ar y math o contract).
☐	Meini Prawf wedi eu sefydlu – asesu a dynodi pa feini prawf sy'n cynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ynteu a oes angen meini prawf ar wahân (yn amodol ar y math o contract). Sylwer: Ni ddylai ailadrodd y cymal dethol.
☐	Anghenion Dangosyddion Perfformiad Allweddol – cynnwys cyflwyno adroddiadau ar gyflawni a/neu fonitro rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.
☐	Telerau ac Amodau wedi eu drafftio – cynnwys telerau contract yn ymwneud â'r Gymraeg.

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

Atodlen 3 - Cymorth ymarferol

Dethol – Holiadur cyn cymhwyso

Datganiad cyffredinol

Mae'r contract a ddyfernir o dan y broses gaffael hon yn 'gcontract gwasanaeth cyhoeddus' sy'n ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a, lle bo'n berthnasol, i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Fel rhan o'r broses dendro hon, bydd gofyn i'r contractwr ddangos ei allu i gydymffurfio â gofynion y Deddfau hynny ac unrhyw safonau neu gynllun iaith Gymraeg perthnasol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio ag ef. Bydd hyn yn cynnwys gallu'r tendrwr i ddarparu'r gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg i ddefnyddiwr gwasanaeth ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal a/neu allu marchnata a hybu'r gwasanaeth yn ddwyieithog. Yn ystod y cymal dethol cychwynnol hwn, mae gofyn i dendrwyr ddangos eu gallu a/neu eu profiad yn y gorffennol o safbwynt rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.

Torri ar ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg

Yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, a ddaethpwyd ag un o'ch contractau i ben a/neu ydych wedi cael gwybod eich bod wedi torri contract (neu bod posibilrwydd o hynny) oherwydd nad ydych wedi diwallu gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg?

YDYM / NAC YDYM

Os 'Ydym', rhowch fanylion pellach o natur y tor-contract, unrhyw gosbau a osodwyd ac unrhyw gamau a gymeroch chi a/neu'r

awdurdod contractio i gywiro hynny.

Dylai camau adferol ddangos y mesurau a gymerwyd i ddangos cywiriad a dibynadwyedd. Gall hyn gynnwys talu iawndal am ddifrod, cydweithio ag awdurdodau i egluro ffeithiau a chymryd camau technegol, sefydliadol a phersonél sy'n briodol er mwyn atal mwy o ddiffygion.

Dylai tendrwyr wybod y gellid ystyried diffyg sylweddol neu barhaus ym mherfformiad gofyniad o sylwedd sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cysylltiedig â'r Gymraeg o dan gcontract cyhoeddus blaenorol yn sail dros eithrio tendrwr o brosesau cyffelyb yn y dyfodol yn unol ag Erthygl 57(4)(g) o'r Gyfarwyddeb Gcontractau Cyhoeddus. Serch hynny, bydd difrifoldeb pob achos a'r camau dilynol a gymerir yn cael eu hystyried fesul achos.

[Nodyn i swyddogion caffael – wrth asesu unrhyw un sy'n ateb 'Ydym' i'r cwestiwn hwn, mae'n angenrheidiol ystyried yn oddrychol a oedd y toriad yn sylweddol neu'n barhaus. Os ydoedd, gellir eithrio'r tendrwr o'r broses. Fodd bynnag, mae'r Gyfarwyddeb yn cynnig trefn sy'n adfer ei hun ('self-cleaning') sy'n golygu y caiff y contractwr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod y camau a gymerwyd yn ddigonol i ddangos ei ddibynadwyedd er gwaethaf presenoldeb sail berthnasol dros eithrio. Bydd y dystiolaeth a ddarperir yn cael ei gwerthuso yng ngoleuni amgylchiadau penodol y diffyg. Pan ystyrir fod y dystiolaeth yn annigonol, rhaid rhoi datganiad o'r rheswm am y penderfyniad hwnnw i'r contractwr.]

Niferoedd staff [Sylwer: dim ond ar gyfer contractau y gwyddys bod



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

angen gwasanaeth Cymraeg ar nifer sylweddol o ddefnyddwyr y dylid defnyddio hwn.]

Nodwch faint o staff sydd gennych ar hyn o bryd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth sydd yn destun y contract:

Parhaol ☐ Dros dro ☐

Ymysg y rhain, nodwch faint sy'n gallu darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg:

Parhaol ☐ Dros dro ☐

[Nodyn i swyddogion caffael: Efallai y bydd angen newid y cwestiwn hwn os yw'r contract dan sylw yn un yn ymwneud â throsglwyddo TUPE. Os yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol, mae'n rhaid i staff ystyried yn ofalus y gofynion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg a nodir yn y fanyleb wrth bennu beth fyddai'n briodol ei bennu fel ateb gofynnol.

Os oes angen isafswm o siaradwyr Cymraeg ar gyfer gweithredu'r contract, neu os yw hynny'n cael ei argymhell (o edrych ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth), mae'n rhaid hysbysu tendrwr o hyn yn y ddogfen hon. Er enghraifft: 'Dylai tendrwr nodi fod lleiafswm o [x] staff sydd yn gallu [siarad/ysgrifennu yn] y Gymraeg yn cael ei ystyried yn [hanfodol] [fanteisiol] yn y contract hwn. [Ni fydd/ Efallai na fydd] cynnig tendrwr yn cael ei ystyried ymhellach os yw'n dychwelyd gyda ffigur is na hyn.'

Profiad Blaenorol

Disgrifiwch pa systemau a phrosesau yr ydych yn eu defnyddio ran amlaf i sicrhau bod anghenion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a, lle

bo'n berthnasol, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael eu diwallu o safbwynt gwasanaethau o'r math hwn.

Disgrifiwch y gweithdrefnau a'r systemau cyfathrebu ac adrodd yr ydych yn eu defnyddio ran amlaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r awdurdodau cyhoeddus [yn fisol] [yn chwarterol] [bob chwe mis] o safbwynt monitro'r galw am y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg.

[Nodyn i swyddogion caffael: wrth benderfynu ar y system sgorio fwyaf priodol ar gyfer y cwestiynau hyn, mae'n hanfodol gwneud hynny yng ngoleuni'r gofynion iaith Gymraeg a ddisgwyllir ar gyfer y contract dan sylw. Byddai asesiad o'r fath yn cyfleu beth sy'n angenrheidiol i'w wneud o safbwynt sgorio a phwyso'r hyn sy'n angenrheidiol. Mae'n rhaid i dendrwr gael gwybod y byddai diffyg ymateb, neu sgôr o 0, yn eu heithrio/yn gallu eu heithrio o'r broses.]

Atodlen 4 - Cymorth Ymarferol

Gwerthuso – Gwahoddiad tendro

Atgoffir tendrwr bod yn rhaid i wasanaethau gael eu darparu mewn modd sydd yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (lle bo'n berthnasol) a gyda safonau neu gynllun iaith Gymraeg y mae'n rhaid i'r awdurdod, gydymffurfio â hwy fel pe bai'r tendrwr ei hun yn gweithredu fel yr awdurdod. Mae'n rhaid i dendrwr sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd â [chynllun iaith Gymraeg cyfredol yr awdurdod sydd ar gael ar [gosodwch yma ddolen at gynllun iaith Gymraeg yr awdurdod] NEU [y safonau y mae'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â hwy sydd ar gael yn [mewn nosoder dolen at safonau iaith Gymraeg yr awdurdod]]. [Dileer fel y bo'n briodol].

Mae'n rhaid i dendrwr gyflwyno datganiad yn disgrifio sut y byddent

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

yn cyflawni'r gwasanaeth o dan y contract mewn modd a fyddai'n sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu trin yn gyfartal â'i gilydd pa un a ydynt angen y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. [Dylai'r datganiad hwn drafod yn fras bob prif agwedd ar y gwasanaeth a'r angen a ragwelir am y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o dan y contract].

Mae'n rhaid i dendrwy'r egluro'r cynllun marchnata y byddant yn ei ddefnyddio er mwyn monitro a hyrwyddo gallu defnyddwyr y gwasanaeth i'w gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn gyfartal fel ei gilydd. Dylai'r ymateb gynnwys [cynllun o'r camau i'w cymryd yn ystod oes y contract] [enghreiffiau o'r wybodaeth ddwyieithog fydd yn cael ei chynnig] [ac amlinelliad o sut y byddai'r tendrwr yn ymateb i unrhyw newid yn y galw am wasanaeth yn Gymraeg/Saesneg].

[Nodyn i swyddogion caffael: wrth gynnwys cwestiynau ac wrth drafod system sgorio a phwysoli briodol, mae'n angenrheidiol gwneud hynny yng ngoleuni'r angen a ragwelir am wasanaeth Cymraeg o dan y contract dan sylw. Bydd asesiad o'r fath yn rhoi gwell syniad i'r awdurdod pa lefel sgorio a phwysoli sy'n briodol].

Atodlen 5 – Cymorth ymarferol

Amodau contract

- 1.1** Mae'n rhaid i'r Contractwr gydymffurfio drwy'r amser gyda Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (lle bo'n berthnasol) a gyda'r safonau neu'r cynllun iaith Gymraeg y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, fel pe bai ef yw'r Awdurdod cyn belled ag y mae'r rhain yn ymwneud â darparu'r Gwasanaethau.
- 1.2** Mae'n rhaid i'r Contractwr ddarparu'r Gwasanaethau (yn unol â'r Fanyleb) drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg

(ar y sail eu bod yn gyfartal).

- 1.3** Y Contractwr fydd yn gyfrifol am hyrwyddo darpariaeth y Gwasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg i ddefnyddiwr y Gwasanaeth ac mae'n rhaid iddo ddefnyddio pob cam rhesymol i gyflawni hyn.
- 1.4** Mae'n rhaid i'r Contractwr fod yn gyfrifol am fonitro lefel y defnydd a wneir o'r Gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan yrru adroddiad ysgrifenedig i'r Awdurdod bob [mis] [chwarter] [chwe mis] yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- 1.4.1** Nifer y defnyddwyr sydd angen y Gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 1.4.2** Canran y cynnydd/Ileihad ers yr adroddiad diwethaf.
- 1.4.3** Sut y mae staff wedi eu trefnu i ddarparu'r Gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 1.4.4** Unrhyw newidiadau i'r modd o ddarparu'r Gwasanaeth sydd wedi eu gwneud neu sy'n cael eu rhagweld gan y Contractwr o ganlyniad i'r uchod ac, os yw'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu.
- 1.4.5** Unrhyw gwynion gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth neu gan staff yn cyfeirio at anawsterau wrth ddarparu'r Gwasanaeth yn unol â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg dros gyfnod yr adroddiad [ac unrhyw gyngor neu arweiniad sydd ei angen ar y Contractwr er mwyn darparu'r fath Wasanaethau].
- 1.5** Cynigion penodol gan y Contractwr – Atodlen yn cynnwys unrhyw gynigion penodol a gafodd eu cynnwys gan y Contractwr yn eu tendr llwyddiannus er mwyn ymdrin â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg.



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 6 – Cymorth Ymarferol

Holiadur pro forma - cydymffurfio â'r cynllun

Contract pro forma - Iaith Gymraeg Gwasanaethau a Osodir ar Gontract, Cytundebau, Asiantaethau ac ati

Mae gofynion safonau/cynllun iaith Gymraeg yn cynnwys nid yn unig wasanaethau i'r cyhoedd wedi eu darparu'n uniongyrchol gan yr [awdurdod contractio], ond hefyd y rhai a ddarperir ar ran yr [awdurdod contractio] gan gontractwyr, ymgynghorwyr, asiantau a thrydydd partion eraill.

Bydd angen sicrhau felly fod y cyrff hyn yn ymwybodol o gynnwys a mesurau'r dogfennau, a'u bod yn cydymffurfio â'u gofynion pan fônt yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.

Dylid nodi nad yw llawer o'r cytundebau gyda'r [awdurdod contractio], yn ymwneud yn sylweddol â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran yr [awdurdod contractio], ond eu bod yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir yn bennaf i'r [awdurdod contractio] ei hun neu ei adrannau e.e. gwaith adeiladu neu ddarparu offer a deunydd. Mae eraill e.e. arlwy, gofal eiddo, yn debygol o gynnwys gwasanaethau mwy uniongyrchol i'r cyhoedd, a bydd gwasanaethau proffesiynol yn parhau i ddarparu nifer o wasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd wedi iddynt gael eu rhoi ar gontract.

Mae'r pro forma hwn i chi ei ddefnyddio i restru'r contractau a'r cytundebau ac ati a drefnir ac a reolir gan eich adran ac i asesu hyd a lled y gwasanaethau i'r cyhoedd, yn unol â rhwymedigaethau

iaith Gymraeg. Mae'r pro forma hefyd yn cynnig y cyfle i nodi os yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau/cynllun/polisiau perthnasol. Os oes angen, gofynnwch am gyngor ac arweiniad gan [enw cyswllt].

1. Disgrifiad o'r gwasanaeth/gwaith:
.....
2. Ymgwymerir â'r contract gan:
.....
3. Cyfnod:
.....
4. Dyddiad cychwyn: gorffen:
5. Ardal a wasanaethir:
6. Ar ôl gorffen, bydd y contract yn cael:
 - i. Ei roi allan ar dendr Bydd ☐ Na fydd ☐
 - ii. Ei adnewyddu Bydd ☐ Na fydd ☐
 - iii. Ei derfynu Bydd ☐ Na fydd ☐
 - iv. Ei newid Bydd ☐ Na fydd ☐

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

7. Nodwch unrhyw wasanaethau perthnasol i'r cyhoedd:

	Ticiwch os yn berthnasol	Ticiwch os yn ddwyieithog ar hyn o bryd		Ticiwch os yn berthnasol	Ticiwch os yn ddwyieithog ar hyn o bryd
i. Gohebiaeth – derbyn ac ateb	☐	☐	viii. Cynhyrchu gwybodaeth:		
ii. Ffôn – derbyn ac ateb galwadau	☐	☐	Papur ysgrifennu a phenawdau	☐	☐
iii. Cyfarfodydd cyhoeddus	☐	☐	Slipiau cyfarch	☐	☐
iv. Cyfarfodydd grŵp - ymgynghori	☐	☐	Papur ffacsio	☐	☐
v. Cyfarfodydd unigol wyneb yn wyneb	☐	☐	Archebion ac anfonebau	☐	☐
vi. Negeseuon – electronig – fideo	☐	☐	Cardiau busnes	☐	☐
vii. Gosod arwyddion ar:			Llyfrynau/pamffledi	☐	☐
Du allan adeiladau	☐	☐	Cylchlythyron	☐	☐
Tu mewn i adeiladau	☐	☐	Trwyddedau	☐	☐
Cerbydau	☐	☐	Tocynnau/talebau/trwyddedau	☐	☐
Ffyrdd a Phriffyrdd	☐	☐	Posterï	☐	☐
Mannau eraill e.e. parciau	☐	☐	Tystysgrifau	☐	☐
			Ffurflenni	☐	☐
			Adroddiadau cyhoeddus, ystadegau ac ati	☐	☐

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 1
Atodlen 2
Atodlen 3
Atodlen 4
Atodlen 5
Atodlen 6
Atodlen 7

	Ticiwch os yn berthnasol	Ticiwch os yn ddwyieithog ar hyn o bryd		Ticiwch os yn berthnasol	Ticiwch os yn ddwyieithog ar hyn o bryd
ix. Cyhoeddusrwydd:			x. Gweithgareddau:		
Datganiadau i'r wasg	☐	☐	Trefnu gweithgareddau	☐	☐
Trefnu arddangosfeydd	☐	☐	Trefnu digwyddiadau	☐	☐
Arolygon a chyfweliadau	☐	☐	Trefnu cyrsiau	☐	☐
Llinell gymorth	☐	☐	Trefnu arall	☐	☐
Ymgyrch hyrwyddo	☐	☐			
Hysbysiadau cyhoeddus	☐	☐			
Hysbysebion i'r wasg	☐	☐			
Cyhoeddusrwydd arall	☐	☐			



Rhan 5 – Opiniwn cyfreithiol a chymorth ymarferol

Atodlen 7 - Cymorth Ymarferol

Siart llif cryno

Mae'r siart llif canlynol yn crynhoi pob cam o'r broses gaffael hyd at ddyfarnu'r contract yng nghyd-destun rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg. Rhaid ystyried anghenion neu rwymedigaethau darparu gwasanaethau dwyieithog ym mhob un o'r cymalau y cyfeirir atynt isod. Dynodir gyda seren (*) y cymalau lle mae penderfyniadau allweddol ar gyfer cynnwys meini prawf, manylebau neu amodau yn ymwneud â'r Gymraeg.

